

Cyfarfod

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

9.30 y.b., DYDD GWENER, 11EG GORFFENNAF, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Gary Pritchard	Cyngor Sir Ynys Môn
Nia Jeffreys	Cyngor Gwynedd
Charlie McCoubrey	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Jason McLellan	Cyngor Sir Ddinbych
Dave Hughes Mark	Cyngor Sir y Fflint
Pritchard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais

Edmund Burke	Prifysgol Bangor
Yr Athro Joe Yates	Prifysgol Wrecsam
Yana Williams	Coleg Cambria
Aled Jones-Griffith	Grŵp Llandrillo Menai
David Roberts	Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Cyng. Edgar Wyn Owen	Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol

Dylan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Dafydd Gibabrd	Cyngor Gwynedd
Rhun ap Gareth	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Graham Boase	Cyngor Sir Ddinbych
Neal Cockerton	Cyngor Sir y Fflint
Alwyn Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Swyddogion yn bresennol

Alwen Williams	Prif Weithredwr Dros Dro y CBC / Cyfarwyddwr Portffolio
Iwan Evans	Swyddog Monitro
Claire Incledon	Dirprwy Monitro
Dewi Morgan	Prif Swyddog Cyllid
Hedd Vaughan-Evans	Pennaeth Gweithrediadau
Nia Medi Williams	Uwch Swyddog Gweithredol

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025/26.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025/26.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellr eu hystyried.

6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

5 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Mai 2025 fel rhai cywir.

7. PROSIECTAU TRAFNIDIAETH YN Y CYNLLUN TWF

13 - 21

Alwen Williams (Prif Weithredwr) i gyflwyno'r adroddiad.

8. YMGYNGHORWYR ANWEITHREDOL

22 - 24

Alwen Williams (Prif Weithredwr) i gyflwyno'r adroddiad.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25

25 - 70

Alwen Williams (Prif Weithredwr) i gyflwyno'r adroddiad.

10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig.

Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglyn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghroau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau

11. ACHOS CYFIAWNHAD BUSNES LLAETH DEFAID CYMRU HWB ECONOMI GWLEDIG GLYNLLIFON

Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf) a Dafydd Jones (Rheolwr Prosiect Bwyd-amaeth a Thwristiaeth) i gyflwyno'r adroddiad.

12. ACHOS BUSNES LLAWN DI-WIFR UWCH (CAMPYSAU CYSYLLTIEDIG)

Stuart Whitfield (Rheolwr y Rhaglen Ddigidol) i gyflwyno'r adroddiad.

13. CAIS AM NEWID CANOLFAN OPTEG A PHEIRIANNEG MENTER

Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf) i gyflwyno'r adroddiad.

14. CAIS AM NEWID ANTURIAETHAU CYFRIFOL

Elliw Hughes (Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf) i gyflwyno'r adroddiad.

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD CBC Y GOGLEDD 16/05/2025

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cyngorwyr:- Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Menna Trenholme (Cyngor Gwynedd), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych) a Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais) – Paul Spencer (Prifysgol Bangor), Yr Athro Joe Yates (Prifysgol Wrecsam) a Gwenllian Roberts (Grŵp Llandrillo Menai).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Iarll (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint) ac Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Awdurdod Lletya – Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru - Alwen Williams (Prif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo), Meghan Davies (Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net), Sandra Sharp (Rheolwr Prosiect Ynni a Sero Net) a Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol).

Eraill yn bresennol:

Eitem 9 Andrew Hudson (Cyfarwyddwr, Zip World) a Lucy Dean (QUAD Consultancy)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cyngorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) gyda'r Cyngorydd Menna Trenholme yn dirprwyo.
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd) gyda Sioned Williams yn dirprwyo.
- Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych)
- Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai) gyda Gwenllian Roberts yn dirprwyo.
- Yana Williams (Coleg Cambria).
- Eiliw Hughes (Rheolwr Rhaglen Cynllun Twf).
- Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2025 fel rhai cywir.

5. CYFETHOL I'R IS-BWYLLGOR LLE ECONOMAIDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro.

PENDERFYNIAD

- 1. Cyfethol Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (heb bleidlais) ar yr Is-bwyllgor Lles Economaidd i gefnogi ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau.**
- 2. Bod yr aelod isod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu cyfethol i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn berthnasol i faterion cynllunio strategol yn unig:**
 - Cyng. Edgar W. Owen, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ar Fawrth 21 cytunodd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd y bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn cynnwys chwe Aelod Cyngor Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd, ynghyd a chynrychiolydd o bob un o'r cyrff hynny a gynrychiolwyd ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i gael ei benodi fel aelodau cyfethol dibleidlais.

TRAFODAETH

Atgoffwyd bod y penderfyniad o gyfethol Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cael ei ohirio yn ystod cyfarfod yr Is-bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2025 er mwyn gwirio materion technegol. Mynegwyd balchder bod y materion hynny bellach wedi cael eu datrys. Cadarnhawyd bod y Cynghorydd Edgar Owen wedi cael ei enwebu i fod yn Aelod Cyfethol (heb bleidlais) o'r Is-bwyllgor hwn. Ymhelaethwyd bydd trefniadau Cyfethol yn cael eu cadarnhau gan y Swyddog Monitro os byddai'r Aelodau yn cadarnhau'r enwebiad hwn.

6. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALF BUEGC AR GYFER 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Cyllid Statudol.

PENDERFYNWYD

- 1. Nodi adroddiad alldro y BUEGC ar gyfer 2024/25 sy'n cynnwys defnyddio £714,395 o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru i ddangos sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.**
- 2. Nodi sefyllfa cronfeydd BUEGC.**
- 3. Nodi adolygiad cyfalaf diwedd blwyddyn BUEGC ar 31 Mawrth 2025.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Hysbysu'r Is-bwyllgor Lles Economaidd am sefyllfa ariannol y BUEGC ar gyfer refeniw a chyfalaf yn 2024/25.

Trosglwyddwyd rôl a swyddogaeth y BUEGC i'r CBC ar 1 Ebrill 2025, a oedd yn cynnwys staff, adnoddau, ymrwymadau ac asedau ariannol, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r cyllid.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr Adroddiad er gwybodaeth i'r Is-bwyllgor gan gadarnhau y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar 13 Mehefin 2025 er cymeradwyaeth.

Adroddwyd bod sefyllfa refeniw alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn 2024/25 yn danwariant oddeutu £386,000. Eglurwyd bod y tanwariant hwn yn gynydd o'r tanwariant a ragwelwyd wrth adrodd ar y sefyllfa ym mis Rhagfyr 2024, sef oddeutu £205,000. Manylwyd ar brif pennawdau'r gyllideb fel a ganlyn:

- **Swyddfa Rheoli Portffolio** - Eglurwyd mai'r tanwariant net terfynol ar y pennawd hwn yw £75,140 yn sgil tanwariant ar wariant gweithwyr. Ymhelaethwyd bod chwyddiant cyflog gwirioneddol 2024/25 yn 3%, ble cyllidebwyd ar gyfer cynnydd o 6%. Tynnwyd sylw bod estyniad ar gyllideb y Gronfa Ffyniant Gyffredin hyd ddiwedd Mawrth 2025 wedi galluogi ariannu tri swyddog o fewn y pennawd UKSPF yn hytrach na'r gyllideb graidd fel a gyllidebwyd.
- **Gwariant Gweithwyr** – Nodwyd bod rhan o'r tanwariant o fewn y pennawd hwn wedi cael ei ddefnyddio i ariannu staff ymgynghorol dros dro tra bod gwaith yn mynd rhagddo i benodi Rheolwr Rhaglen wedi i'r swydd ddod yn wag.
- **Gwasanaethau Cefnogol gan y Corff Atebol** – Cyfeiriwyd bod tanwariant o £41,730 yma sy'n deillio yn bennaf o danwariant ar gymorth y Gwasanaeth Cyllid.
- **Cyd-bwyllgor** - Adroddwyd bod tanwariant o £48,935 yn y pennawd hwn, gyda tanwariant i weld ar bob llinell berthnasol o'r gyllideb o fewn y pennawd.
- **Prosiectau** – Esboniwyd bod tanwariant net o £65,034 ar y pennawd hwn yn sgil cyfalafu costau a ystyriwyd yn flaenorol o fewn llinell gyllideb 'Datblygu Achosion Busnes Prosiect'. Er hyn, cydnabuwyd bod galw uchel am gymorth cyfreithiol allanol ar nifer o brosiectau wedi arwain at orwariant o fewn y llinell 'Datblygu Achosion Busnes Prosiect'.
- **Grantiau** - Nodwyd bod gorwariant i'w weld ym mhrosiectau Ynni Ardal Leol a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Ymhelaethwyd bod estyniad ar y ddau brosiect hyd at ddiwedd Mawrth 2025 wedi arwain at orwariant net o £96,820. Eglurwyd bod y gorwariant sydd ynghlwm â'r prosiect Ynni Ardal Leol yn cael ei ariannu gan yr arian sydd yn weddill yn y grant. Ymhelaethwyd bod y tanwariant sydd i'w weld yn rhai o gynlluniau sydd ynghlwm â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu defnyddio i ariannu'r gorwariant ar gostau gweithwyr y Gronfa yn ogystal â chyfrannu tuag at gostau gorbenion Swyddfa Rheoli Portffolio.
- **Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn** – Nodwyd gwariant heb ei gyllidebu o £2.8miliwn o fewn y maes hwn. Eglurwyd bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cymeradwyo'r defnydd o'r llog a gronnwyd ar Falansau'r Cynllun Twf yn 2024/25 i ariannu rolau ychwanegol yn unol â gofynion y llywodraethau yn ogystal â chostau datblygu prosiectau o 2025/26 ac i gadw adnoddau cyfredol y Swyddfa Rheoli Portffolio am ddwy flynedd ychwanegol y tu hwnt i Fawrth 2026. Tynnwyd sylw bod y pennawd hwn yn cadarnhau bod y llog a dderbyniwyd ar falensau yn ystod 2024/25 yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Adnoddau penodol er mwyn ariannu'r costau hyn.

Rhestrwyd y prif ffrydiau incwm ar gyfer 2024/25 sef cyfraniadau partneriaid, dyraniad refeniw grant Cynllun Twf Gogledd Cymru, cyfraniad gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer secondiad staff, grant ynni Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi.

Eglurwyd bod £1.1miliwn wedi cael ei gyllidebu i'w dynnu i lawr o Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru ar gyfer costau refeniw, sef y 2.15% mae'r llywodraethau wedi cytuno y gall cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn,

argymhellwyd tynnu £714,000 o'r Grant Cynllun Twf yn hytrach na'r £1.1miliwn a gyllidebwyd.

Adroddwyd bod £211,000 yn y Gronfa wrth Gefn ar 31 Mawrth 2025 gan atgoffa'r Aelodau bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cymeradwyo defnyddio £61,000 o'r gronfa hon fel rhan o gyllideb 2025/26, yn ystod ei gyfarfod ar 14 Chwefror eleni.

Tynnwyd sylw bod cyfanswm o £29,000 yn y Gronfa Prosiectau ar ddiwedd Mawrth 2025 ac bod swyddogion wedi derbyn cymeradwyaeth y bwrdd i ddefnyddio'r gronfa hon i ariannu costau prosiect Ynni Lleol ('Datblygu Achos Busnes Prosiect'). Cadarnhawyd bod y costau hyn wedi'u cyfalafu ond bod y costau hyn wedi'u talu o'r Gronfa Prosiectau wrth gefn gan nad yw'r Achos Busnes Llawn wedi cael ei gymeradwyo ar hyn o bryd.

Cadarnhawyd mai balans y Gronfa Llog ar 31 Mawrth 2025 oedd £4.7miliwn. Ymhellach, cadarnhawyd bod £2.8miliwn yn y Gronfa Adnoddau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn dilyn trosglwyddo'r llog a dderbyniwyd ar y Grant Cynllun Twf yn ystod y flwyddyn.

Cyfeiriwyd at adolygiad diwedd blwyddyn y rhaglen Gyfalaf 2024/25 gan gadarnhau bod gostyngiad net o £13.3miliwn yn y gwariant oherwydd llithriad ar bedwar prosiect. Manylwyd mai'r prosiectau hyn yw'r Canolfan Prosesu Signal Digidol, Ynni Lleol Blaengar, Porth Caergybi a Safle cyn-Ysbyty Gogledd Cymru. Nodwyd hefyd bod diddymu prosiect Canolfan Anaerobig Glannau Dyfrdwy hefyd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn. Cadarnhawyd bod gwaith ar brosiectau Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol, Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter a'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth wedi gwthio cyfran o'u gwariant proffil ymlaen.

Mewn ymateb i ymholiad ar gymharu'r ystadegau a gyflwynwyd yn yr adroddiad gyda'r blynyddoedd diwethaf, cadarnhaodd y Swyddog Cyllid Statudol bod adrodd ar faterion refeniw yn digwydd ar sail blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, cadarnhawyd bydd modd i swyddogion gymharu sefyllfa ariannol gyda'r blynyddoedd diwethaf er cymhariaeth wrth gyflwyno datganiadau o gyfrifon draft i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Tynnwyd sylw bod materion cyfalaf eisoes yn dangos cymariaethau dros ystod eang o flynyddoedd.

7. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG CHWARTER 4

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau.

PENDERFYNWYD

- 1. Nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddarau.**
- 2. Cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

I gyflwyno adroddiad Chwarter 4 (Ionawr i Mawrth) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddarau.

Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan yr Is-bwyllgor, caiff yr adroddiadau

eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

TRAFODAETH

Adroddwyd ar nifer o uchafbwyntiau datblygiadol y Cynllun Twf megis cymeradwyaeth i Achos Busnes Amlinellol y prosiect Anturiaethau Cyfrifol, cymeradwyo Achosion Busnes Llawn prosiectau Cydnerth a Pharc Bryn Cegin a hefyd cyflwyno achos dros newid ar brosiect Glynllifon. Ymhelaethwyd bod gwaith adnewyddu ar safle Henfaes yn cael ei gyflawni ar amser ar gyfer Datblygu Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol. Mynegwyd balchder bod Cytundeb Ariannu grant wedi cael ei arwyddo ar gyfer y Rhwydwaith Talent Twristiaeth. Nodwyd hefyd bod y prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) bellach wedi ei gau gan edrych yn ôl ar nifer o lwyddiannau megis lansiad y portal sgiliau, prynu offer arolwg symudol a darparu grantiau i 16 o sefydliadau bach cymunedol.

Tynnwyd sylw bod amryw o brosiectau yn adrodd yn goch ar Gofrestr Risg y Portffolio ar hyn o bryd, sef Cysylltu'r Ychydig % Olaf, Ffibr Llawn, NEW H2, Trawsfynydd, Porth Caergybi a Stiwdio Kinmel.

Eglurwyd bod nifer o brosiectau yn weithredol erbyn hyn, gan nodi bod modd adrodd ar rai o'r manteision sy'n deillio ohonynt. Manylwyd bod £15.32miliwn o fuddsoddiad wedi cael ei wneud o fewn y Cynllun Twf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r cyfanswm o fuddsoddiadau yn £16.61miliwn. Cydnabuwyd fod y niferoedd hyn yn is na'r targedau ond pwysleisiwyd bod y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol ers y flwyddyn blaenorol, gan fod mwy o brosiectau wedi derbyn cymeradwyaeth.

Ymhelaethwyd bod y prosiectau a gymeradwywyd wedi sicrhau £4.712miliwn o refeniw yn ogystal â bod wedi creu 35 o swyddi hyd yma. Ymhelaethwyd bod 261 o unigolion yn derbyn Hyfforddiant a chwblhau cyrsiau er mwyn ennill cymwysterau.

Sicrhawyd bydd modd adrodd ar y math hwn o ddata yn rheolaidd wrth ystyried diweddariadau chwarterol, er mwyn adolygu'r effaith ehangach mae'r Cynllun Twf yn ei gael ar y rhanbarth.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith er mwyn sicrhau gwireddu'r agweddau hyn o'r Cynllun Twf.

Mynegwyd pryder gan Lywodraeth Cymru ar gyflymder gwireddu'r Cynllun Twf gan fod oddeutu 10 mlynedd yn weddill ar y Cynllun a bod angen cynyddu ystadegau buddsoddi yn sylweddol er mwyn cyrraedd targedau'r Cynllun. Fodd bynnag, mynegwyd balchder bod cynnwyd wedi bod ar brosiectau'r Cynllun dros y flwyddyn ddiwethaf. Mewn ymateb, pwysleisiwyd gan Brif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ei fod yn hanfodol bwysig bod swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod targedau'r Cynllun yn cael eu gwireddu er lles economi'r Rhanbarth.

8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD

PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitem 9-11 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.

9. ANTURIAETHAU CYFRIFOL – DIWEDDARIAD AR Y GOFYNION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan swyddogion Zip World a QUAD Consultancy.

PENDERFYNWYD

- 1. Nodi'r cynnydd a wnaed gan Zip World tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a bwriad y cwmni i gyflwyno cais am newid i ddileu elfennau e-fws y prosiect.**
- 2. Gwahodd Zip World i gyflwyno ei gais am newid i'r cyfarfod nesaf ac i roi diweddariad pellach ar y cynllun ymgysylltu a'r Cynllun Buddion Lleol fel rhan o'r adroddiad hwn.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Darparu diweddariad yn erbyn y tri gofyn a osodwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd wrth gymeradwyo Achos Busnes Amlinellol y prosiect.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

10. ARGYMHELLION RHESTR WRTH GEFN Y CYNLLUN TWF

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau a Phrif Weithredwr dros dro Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd.

PENDERFYNWYD

- 1. Cytuno ar yr argymhellion sy'n deillio o ganlyniadau asesiad Mynegi Diddordeb (EOI) gan wahodd y prosiectau hynny i ymuno â Rhestr Wrth Gefn y Cynllun Twf.**
- 2. Cytuno ar y broses arfaethedig ar gyfer rheoli prosiectau'r rhestr wrth gefn.**
- 3. Cytuno ar y broses sicrwydd a chymeradwyaeth symlach arfaethedig ac yn dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio wneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mewn ymgynghoriaeth gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.**
- 4. Bod:**
 - a. Yr is-bwyllgor cytuno i gychwyn proses i asesu ac adolygu'r cwmpas a'r achos dros ymestyn y cynllun twf presennol i gynnwys prosiectau trafnidiaeth.**

- b. Yr Is-bwyllgor yn comisiynu'r Cyfarwyddwr Portffolio i baratoi adroddiad opsiynau manwl mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a'r DU a swyddogion y Cynghorau Cyfansoddiadol a Phartneriaid Addysg.
- c. Yr adroddiad opsiynau yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor gyda'r bwriad o benderfynu a ddylid cychwyn proses newid yn ffurfiol i sicrhau cytundeb ar gyfer Cynllun Twf estynedig i gynnwys prosiectau Trafnidiaeth.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r penderfyniad a geisir yn ymateb i'r cais a wnaed gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ym mis Ebrill 2025 i ddechrau'r broses Mynegi Diddordeb (EOI) a chyflwyno argymhellion yn yr Is-bwyllgor hwn yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

11. CRONFA YNNI GLÂN (YNNI LLEOL BLAENGAR) – ACHOS BUSNES LLAWN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau a Rheolwr Prosiect Ynni a Sero Net.

PENDERFYNWYD

1. Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y Gronfa Ynni Glân, Cynllun Rheoli Cronfa gan gynnwys Strategaethau Buddsoddi a'r Matrics Penderfyniadau Dirprwyedig ar gyfer y prosiect.
2. Cymeradwyo y Matrics Penderfyniadau Dirprwyedig ar gyfer y prosiect.
3. Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro i gadarnhau cwblhau'r materion sydd heb eu nodi yn adran 7 a chytuno ar lansiad ffurfiol y Gronfa.
4. Bod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn penodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i fod yn swyddog atebol am gyflawni'r prosiect.
5. Cymeradwyo bod cyfalaf a ad-dalwyd yn ystod gweithrediad y gronfa yn cael ei neilltuo i'r Is-gronfa Wrth Gefn gael ei ail-fuddsoddi yn unol â'r strategaethau Buddsoddi. Cymeradwyo bod refeniw dros ben a gynhyrchir gan y prosiect unwaith y bydd costau gweithredu wedi'u talu yn cael ei neilltuo i ariannu gweithrediad y Swyddfa Rheoli Portffolio.
6. Gofyn am ddiweddariad pellach ymhen 6 mis er mwyn adolygu partneriaethau perthnasol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

I geisio cymeradwyaeth yr Is-bwyllgor o'r achos busnes llawn ar gyfer Prosiect y Gronfa Ynni Glân.

TRAFODAETH

Trafodwyd yr Adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 12:05.

Cadeirydd

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

11 Gorffennaf, 2025

TEITL: Prosiectau Trafnidiaeth yn y Cynllun Twf

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor, yn unol â'r cais ym mis Mai, i bennu p'un a ddylid cychwyn ar y broses newid ffurfiol fel bod modd i'r Cynllun Twf gael ei ymestyn i gynnwys prosiectau Trafnidiaeth.
- 1.2. Yn dilyn proses adolygu, cyflwynir asesiad a gwerthusiad o dri opsiwn, ynghyd ag argymhelliad, yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Cytuno ar yr argymhelliad a'r ffordd ymlaen sy'n cael ei ffafrio (Opsiwn 2), fel y nodir isod ac yn **Atodiad 1**.
- 2.2. Gofyn bod y Cyfarwyddwr Portffolio yn cychwyn ar y broses newid i gynnwys yr elfennau hyn yn ffurfiol yn y Rhaglen Tir ac Eiddo.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Ym mis Mawrth 2025, lansiodd Uchelgais Gogledd Cymru broses 'Mynegi Diddordeb' i ddethol prosiectau ar gyfer y Rhestr Wrth Gefn newydd a fyddai'n medru cyflwyno achosion busnes ar gyfer cyllid yn y dyfodol. Un o'r meini prawf a osodwyd oedd bod angen i brosiectau fod o fewn sgôp y pum rhaglen presennol y Cynllun Twf – Cysylltedd Digidol, Ynni Carbon Isel, Tir ac Eiddo, Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel a Bwyd-amaeth a Thwristiaeth.
- 3.2. O'r 27 Mynegiant o Ddiddordeb a gyflwynwyd, roedd pedwar yn cael eu hystyried fel rhai oedd y tu allan i sgôp y Cynllun Twf. Roedd un o'r rhain yn brosiect seiliedig ar refeniw ac roedd y tri arall yn brosiectau trafndiaeth yn bennaf; cyflwynwyd dau gan Lywodraeth Cymru ac un gan Gyngor Gwynedd. Dim ond un o'r prosiectau, 'Padeswood', oedd yn cwrdd â'r trothwy sgorio i gael ei ystyried i'w gynnwys ar y rhestr wrth gefn; fodd bynnag, roedd yr adroddiad i'r is-bwyllgor yn nodi'n glir y byddai hyn yn destun penderfyniad ar wahân ar gynnwys prosiectau trafndiaeth yn y Cynllun Twf.

- 3.3. Yn yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd ym mis Mai, cytunwyd bod:
- yr Is-bwyllgor yn cytuno i gychwyn proses i asesu ac adolygu'r sgôp a'r achos ar gyfer ymestyn y Cynllun Twf presennol i gynnwys prosiectau trafndiaeth.
 - yr Is-bwyllgor yn comisiynu'r Cyfarwyddwr Portffolio i baratoi adroddiad opsiynau manwl mewn ymgynghoriad â Llywodraethau Cymru a'r DU a swyddogion y Cynghorau Cyfansoddol a Phartneriaid Addysg.
 - yr adroddiad opsiynau yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor gyda'r bwriad o bennu p'un a ddylid cychwyn y broses newid ffurfiol i sicrhau cytundeb ar gyfer y Cynllun Twf estynedig i gynnwys prosiectau Trafndiaeth.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Pan oedd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei gysyniadu, roedd y cynnig yn cynnwys sgôp ehangach o raglenni yn cynnwys cais ariannu wedi'i ymestyn i Lywodraethau am £75m i sefydlu Cronfa Trafndiaeth Ranbarthol a Chorff Trafndiaeth Rhanbarthol. Fe'i disgrifir yn y cynnig Cynllun Twf gwreiddiol fel y Rhaglen Trafndiaeth Strategol, a oedd yn ceisio *"cyflawni rhaglen trafndiaeth strategol y Rhanbarth er mwyn gwella cysylltedd rhanbarthol, mynediad i gyflogaeth a thwf economaidd a busnesau. Bydd trafndiaeth wedi'i hintegreiddio'n well a bydd dewisiadau amgen i fynediad ar ffyrdd yn cael eu datblygu."*
- 4.2. Roedd trafodaethau rhwng y Rhanbarth a'r ddwy Lywodraeth, gan arwain at Benawdau Telerau cytundeb y Cynllun Twf yn 2019, wedi arwain at ddim ond un prosiect a oedd mewn sgôp ar gyfer y Cynllun Twf. Roedd hwn yn brosiect Datgarboneiddio Trafndiaeth Rhanbarthol gyda £12.5m o gyllid wedi'i ddyrannu i *"gefnogi'r newid o gerbydau sy'n defnyddio tanwydd yn seiliedig ar garbon fel y prif fodd o drafndiaeth i drafndiaeth amgen carbon isel a dim carbon ledled y Gogledd."*
- 4.3. Fel rhan o ddatblygu'r Achos Busnes Portffolio a arweiniodd at y Cytundeb Cynllun Terfynol ym mis Rhagfyr 2020, penderfynodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd symud y prosiect 'Datgarboneiddio Trafndiaeth Rhanbarthol' (a newidiodd i brosiect seiliedig ar hydrogen maes o law), i'r rhaglen Ynni Carbon Isel a chael gwared ar y Rhaglen Trafndiaeth Strategol o'r Cynllun Twf.
- 4.4. Tra bod y penderfyniad wedi pennu nad oedd angen rhaglen benodol ar gyfer trafndiaeth, roedd yn parhau i fod yn faes allweddol o fewn y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru - gan gydnabod, y byddai angen ffocws cryf ar ddatblygu rhwydweithiau trafndiaeth integredig a fforddiadwy er mwyn cyflawni twf economaidd. Yn yr un ffordd, dylai arwyddocâd strategol Sgiliau a Chyflogadwyedd gael ei gydnabod fel cydran hanfodol i greu sylfaen ar gyfer ffyniant economaidd, er nad oes arian refeniw ar gael o'r Cynllun Twf. Mae Trafndiaeth a Sgiliau wedi parhau i fod yn amlwg iawn yn ein naratif rhanbarthol.
- 4.5. Yn dilyn y penderfyniad gan yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd ym mis Mai, i ofyn am asesiad manwl, mae'r PMO wedi dechrau ystyried tri opsiwn mewn perthynas â chynnwys prosiectau Trafndiaeth yn y Cynllun Twf, fel sydd wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**, ac wedi ei crynhoi yn y tabl isod:

Crynodeb o'r arfarniad:

	Crynodeb
Opsiwn 1 - Rhaglen Trafnidiaeth Newydd	Mae graddfa'r buddsoddiad sydd ei angen sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn sylweddol a byddai'n cynrychioli ymyrraeth rhanbarthol ategol i'r Cynllun Twf, Parth Buddsoddi a Phorthladd Rhydd. Ni fyddai'n ymarferol ceisio creu hwn fel rhaglen yn y Cynllun Twf a byddai angen cyllid ychwanegol arwyddocaol uwchben y £240m sydd wedi'i ddyrannu i'r Cynllun. O ganlyniad, mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru.
Opsiwn 2 - Rhaglen Tir ac Eiddo Ddiwygiedig	Ymestyn y Rhaglen Tir ac Eiddo i egluro bod bwrw ymlaen â phrosiectau sy'n galluogi seilwaith trafndiaeth ar y safle ac oddi ar y safle am ddarparu'r hyblygrwydd i Uchelgais Gogledd Cymru i ariannu peth gwaith galluogi fel rhan o brosiect mwy fyddai'n cyflwyno twf economaidd ac yn cyfrannu at ein targedau portffolio. Byddai angen meini prawf llym o amgylch cwmphas a lefel yr arian a allai gael ei ddarparu gan na fyddai'r seilwaith trafndiaeth ar ei ben ei hun yn creu lefel y swyddi sydd eu hangen gan y Cynllun Twf, ond fe allai o bosib ddefnyddio arian sylweddol. Fodd bynnag, cyhyd ag y bo'r meini prawf yn glir ac yn cael ei reoli'n effeithiol, mae hwn yn gyfle i ddatgloi rhai prosiectau na allai fwrw ymlaen heb arian ychwanegol o'r Cynllun Twf ac fe ddylid ystyried hyn. Dyma'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio.
Opsiwn 3 - Dim newid	Cynnal y safle presennol fyddai'n cael yr effaith leiaf ar y Cynllun Twf o ran y broses a'r adnoddau ond hefyd fe allai gynrychioli cyfle wedi'i fethu i ddatgloi cynlluniau fyddai'n cyflawni yn erbyn targedau'r Cynllun Twf. O ganlyniad, mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru.

4.6. Yr argymhelliad gan y PMO i'w ystyried gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd, yw y dylid cytuno ar Opsiwn 2 fel y nodir isod:

- i. Byddai sgôp y rhaglen sy'n cael ei haddasu i egluro bod prosiectau yn cynnwys bwrw ymlaen i alluogi i seilwaith trafndiaeth ar y safle ac oddi ar y safle fel rhan o'r prosiect ehangach lle bo hynny'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgarwch datblygiad economaidd a chreu swyddi newydd.
- ii. Y dylid ystyried prosiectau yn unig "mewn sgôp" lle maent yn cwrdd â'r meini prawf a ganlyn:
 - a) Dylai prosiectau fod yn brosiectau strategol o bwys rhanbarthol ac yn cael eu cynnig i'w cynnwys yn y Cynllun Twf gan Lywodraeth Cymru.
 - b) Mae galluogi gwelliannau i'r seilwaith trafndiaeth ar y safle neu oddi ar y safle yn ffurfio rhan o'r prosiect ar y cyd â gweithgarwch datblygiad economaidd /



creu swyddi, e.e. ymestyn cyfleusterau presennol neu greu cyfleusterau newydd.

- c) Byddai'r Cynllun Twf yn ariannwr cyfalaf lleiafrifol mewn prosiectau o'r fath a byddai'n cael ei ystyried yn ariannwr dewis olaf yn darparu arian i ddatgloi'r gwaith cyflawni.
- d) Gellir cyflawni'r prosiectau, a gwireddu buddion o fewn amserlen y Cynllun Twf. Byddai'r un meini prawf o ran cyflawni yn berthnasol yn yr un modd â phrosiectau eraill y Cynllun Twf.

- 4.7. Pe byddai'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd yn cefnogi'r argymhellion uchod (Opsw'n 2), byddai angen adolygu targedau ac amcanion y Rhaglen Portffolio a Thir ac Eiddo i ystyried y newid, gan olygu o bosib bod angen ail drafod â Llywodraeth y DU a Chymru o safbwynt targedau'r portffolio.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn. Gallai egluro sgôp y Rhaglen Tir ac Eiddo alluogi amrediad ehangach o'r prosiectau i gael eu hystyried ar gyfer arian y Cynllun Twf yn y dyfodol, fodd bynnag, mae'r amlen arian ar gyfer y Cynllun Twf yn parhau yn sefydlog ar £240m.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 6.1. Mae'r ffordd ymlaen sy'n cael ei ffafrio yn egluro bod modd bwrw ymlaen â'r seilwaith trafndiaeth ar y safle neu oddi ar y safle fel rhan o brosiect ehangach yn sgôp y rhaglen Tir ac Eiddo ac mae'n benderfyniad y gellir ei wneud gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd. Mae hyn yn ymwneud â darparu cyllid ar gyfer galluogi gwaith trafndiaeth sy'n rhan angenrheidiol o brosiect sy'n gallu cyrraedd targed ac allbynnau y Cynllun Twf. Byddai amodau'r cytundeb ariannu o reidrwydd yn gysylltiedig ag allbynnau y prosiect ehangach a'r amserlenni.
- 6.2. Ni ellir ystyried prosiectau trafndiaeth unigol, yn cynnwys priffyrdd cyffredinol/strategol neu ddatblygiadau rhwydwaith, gan y byddai hyn yn ymestyn y tu hwnt i'r sgôp y mae'r Cynllun Twf wedi ymrwymo i'w gyflawni ar hyn o bryd, a byddai newid o'r fath angen cymeradwyaeth 10 partner Uchelgais Gogledd Cymru ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Papur Opsiynau: Prosiectau trafndiaeth yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yn esbonio bod gwelliannau i'r Cynllun Fargen Twf yn parhau i fod yn fater a gedwir i'r Cynghorau a Sefydliadau partner a'r Llywodraethau. Y cynnig yw caniatáu i elfennau trafndiaeth sy'n galluogi prosiectau penodol o fewn y Rhaglen Tir ac Eiddo i gael eu cynnwys fel rhan o'r cyllid. Mae hyn yn gyson â chwmpas y rhaglen hon. Fodd bynnag, bu ansicrwydd ynghylch elfennau galluogi o'r fath a bydd y cynnig hwn yn darparu'r eglurder hwnnw. O ystyried yr amlen ariannu cyfyngedig, mae'r amodau a nodir yn yr adroddiad yn ganllaw angenrheidiol a chlir ynghylch cwmpas yr elfennau trafndiaeth a allai fod yn gymwys."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Nid oes gennyf wrthwynebiadau gydag egwyddor y penderfyniad a geisiwyd. O safbwynt cyllid mae yna amlen ariannu cyfyngedig fel y nodwyd yn 5.1 uchod, sef gwariant cyfalaf."



Atodiad 1: Papur Opsiynau: Prosiectau Trafnidiaeth yn Cynllun Twf Gogledd Cymru

Opsiynau ar gael

Mae'r PMO wedi ystyried tri opsiwn mewn perthynas â chynnwys prosiectau Trafnidiaeth yn y Cynllun Twf:

- Opsiwn 1 – Creu Rhaglen Trafnidiaeth newydd yn y Cynllun Twf, wedi'i alinio â'r Strategaeth Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- Opsiwn 2 – Ymestyn y Rhaglen Tir ac Eiddo i egluro bod modd bwrw ymlaen â'r prosiectau sy'n cynnwys galluogi seilwaith trafndiaeth ar y safle ac oddi ar y safle, a hynny mewn cwrddas wedi'i ddiffinio'n glir lle maent yn cyfrannu at dargedau craidd y Cynllun Twf.
- Opsiwn 3 – Dim newid. Nid yw prosiectau trafndiaeth a phrosiectau yn cynnwys galluogi'r seilwaith trafndiaeth yn cael eu hariannu drwy'r Cynllun Twf.

Asesiad Opsiynau Lefel Uchel

	Sgôp	Goblygiadau Llywodraethu	Cyllid	Adnoddau	Buddion	Llwybr Cymeradwyo
Opsiwn 1 - Rhaglen Trafnidiaeth Newydd	Byddai'r rhaglen newydd yn cael ei halinio â chyflawniad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.	Byddai angen sefydlu rhaglen newydd, fodd bynnag, mae graddfa'r gwaith a'r buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn sylweddol a dylai gael ei weld fel portffolio/rhaglen ategol o statws cyfartal i'r Cynllun	Byddai angen cyllid ychwanegol sylweddol i gyflawni dyheadau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r cynllun yn sefydlu cais am	Mae'n debygol y bydd angen adnoddau ychwanegol i reoli, monitro a chyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Ni fyddai modd ymdopi â'r fath gynnydd	Er y byddai buddion economaidd sylweddol i gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, ni fyddai nifer o brosiectau yn gwneud cyfraniad uniongyrchol i dargedau'r Cynllun Twf.	Byddai'n cynrychioli newid mawr i'r Cynllun Twf drwy greu rhaglen newydd a byddai angen i bob partner ei gymeradwyo. Byddai angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru



		Twf / Parth Buddsoddi / Porthladd Rhydd, yn hytrach na rhaglen yn y Cynllun Twf.	£150m mewn arian Llywodraeth Cymru dros gyfnod o bum mlynedd.	mewn llwyth gwaith o fewn yr adnoddau presennol.		er mwyn darparu cyllid ychwanegol.
Opsiwn 2 - Rhaglen Tir ac Eiddo Ddiwygiedig	Ymestyn y rhaglen i egluro y gellir cefnogi prosiectau sy'n cynnwys galluogi seilwaith trafndiaeth ynghyd ag elfennau twf economaidd sy'n cyflawni swyddi/twf.	Byddai hwn yn welliant cymedrol i'r rhaglen bresennol ac er y gellid ystyried cynrychiolwyr ychwanegol ar y Bwrdd Rhaglen, byddai'r effaith yn finimol. Fodd bynnag, gallai'r gwaith galluogi trafndiaeth cysylltiedig â'r prosiectau fod yn gymhleth.	Potensial i ariannu prosiectau yn cynnwys galluogi seilwaith trafndiaeth o fewn yr amlen ariannu Cynllun Twf bresennol.	Byddai prosiectau yn cael eu hariannu o fewn yr arian Cynllun Twf presennol; dim effaith ychwanegol ar y gofynion adnoddau.	Potensial i ddatgloi prosiectau/safleoedd twf economaidd allweddol fyddai'n cyfrannu at dargedau'r Cynllun Twf. Fodd bynnag, gallai'r buddion o'r prosiectau, yn cynnwys gwaith galluogi trafndiaeth, fod yn is na'r prosiectau eraill sy'n gofyn negodi gyda'r llywodraeth ar dargedau.	Byddai hwn yn ddiwygiad cymedrol i'r rhaglen bresennol ac felly byddai o fewn pwerau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig i'w gymeradwyo.
Opsiwn 3 - Dim newid	Dim newid	Dim effaith	Dim effaith	Dim effaith	Byddai'n cyfyngu ar allu'r Cynllun Twf i fuddsoddi mewn cynlluniau trafndiaeth a allai gyflawni yn erbyn targedau'r Cynllun Twf.	Byddai hwn yn cynrychioli dim newid ac felly mae gan y CBC y grym i'w gymeradwyo.

Crynodeb o'r Arfarniad

	Crynodeb
--	----------

Opsiwn 1 - Rhaglen Trafnidiaeth Newydd	Mae graddfa'r buddsoddiad sydd ei angen sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn sylweddol a byddai'n cynrychioli ymyrraeth rhanbarthol ategol i'r Cynllun Twf, Parth Buddsoddi a Phorthladd Rhydd. Ni fyddai'n ymarferol ceisio creu hwn fel rhaglen yn y Cynllun Twf a byddai angen cyllid ychwanegol arwyddocaol uwchben y £240m sydd wedi'i ddyrannu i'r Cynllun. O ganlyniad, mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru.
Opsiwn 2 - Rhaglen Tir ac Eiddo Ddiwygiedig	Ymestyn y Rhaglen Tir ac Eiddo i egluro bod bwrw ymlaen â phrosiectau sy'n galluogi seilwaith trafndiaeth ar y safle ac oddi ar y safle am ddarparu'r hyblygrwydd i Uchelgais Gogledd Cymru i ariannu peth gwaith galluogi fel rhan o brosiect mwy fyddai'n cyflwyno twf economaidd ac yn cyfrannu at ein targedau portffolio. Byddai angen meini prawf llym o amgylch cwmplas a lefel yr arian a allai gael ei ddarparu gan na fyddai'r seilwaith trafndiaeth ar ei ben ei hun yn creu lefel y swyddi sydd eu hangen gan y Cynllun Twf, ond fe allai o bosib ddefnyddio arian sylweddol. Fodd bynnag, cyhyd ag y bo'r meini prawf yn glir ac yn cael ei reoli'n effeithiol, mae hwn yn gyfle i ddatgloi rhai prosiectau na allai fwrw ymlaen heb arian ychwanegol o'r Cynllun Twf ac fe ddylid ystyried hyn. Dyma'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio.
Opsiwn 3 - Dim newid	Cynnal y safle presennol fyddai'n cael yr effaith leiaf ar y Cynllun Twf o ran y broses a'r adnoddau ond hefyd fe allai gynrychioli cyfle wedi'i fethu i ddatgloi cynlluniau fyddai'n cyflawni yn erbyn targedau'r Cynllun Twf. O ganlyniad, mae'r opsiwn hwn wedi'i ddiystyru.

Argymhelliad: Opsiwn 2

Yr argymhelliad gan y PMO i'w ystyried gan yr Is-bwyllgor Llesiant Economaidd yn y cyfarfod ar yr 11 Gorffennaf, yw y dylid cytuno ar Opsiwn 2 fel y nodir isod:

1. Diwygio sgôp y rhaglen i egluro y gellir bwrw mlaen â phrosiectau sy'n cynnwys galluogi seilwaith trafndiaeth ar y safle ac oddi ar y safle fel rhan o brosiect ehangach lle mae'n gysylltiedig yn uniongyrchol i weithgarwch datblygu economaidd a chreu swyddi newydd.
2. Y dylid ystyried prosiectau yn unig "mewn sgôp" lle mae'r meini prawf a ganlyn yn cael eu cwrdd:
 - a) Dylai prosiectau fod yn brosiectau strategol o bwys rhanbarthol ac yn cael eu cynnig i'w cynnwys yn y Cynllun Twf gan Lywodraeth Cymru.
 - b) Mae galluogi gwelliannau seilwaith trafndiaeth ar y safle neu oddi ar y safle yn ffurfio rhan o'r prosiect ar y cyd â gweithgarwch datblygiad economaidd / creu swyddi, e.e. ymestyn cyfleusterau presennol neu greu cyfleusterau newydd.



- c) Byddai'r Cynllun Twf yn ariannwr cyfalaf lleiafrif mewn prosiectau o'r fath a byddai'n cael ei ystyried yn ariannwr dewis olaf yn darparu arian i ddatgloi'r cyflawni.
 - d) Gellir cyflawni'r prosiectau, a gwireddu buddion o fewn amserlen y Cynllun Twf. Byddai'r un meini prawf o ran cyflawni yn gymwys yn yr un modd â phrosiectau eraill y Cynllun Twf.
3. Pe byddai'r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd yn cefnogi'r argymhellion uchod, byddai angen adolygu targedau ac amcanion y Rhaglen Portffolio a Thir ac Eiddo i ystyried y newid, o bosib yn creu ail-negodi â Llywodraeth y DU a Chymru ar dargedau'r portffolio.

IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

11 Gorffennaf, 2025

TEITL: Ymgynghorwyr Anweithredol

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Diweddarau'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ar drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â recriwtio Ymgynghorwyr Anweithredol ac i nodi'r broses arfaethedig ar gyfer penodi.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Cytuno ar y broses a nodir yn adran 4.5 ar gyfer recriwtio a phenodi Ymgynghorwyr Anweithredol.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Ym mis Mawrth 2025 cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Cylch Gorchwyl a'r broses benodi ar gyfer Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd yn dilyn trosglwyddo'r Cynllun Twf ynghyd â chymeradwyo'r disgrifiadau rôl ar gyfer dau Ymgynghorydd Anweithredol newydd.
- 3.2. Awdurdododd y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Prif Weithredwr dros dro i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gaffael ymgeiswyr i'w hargymell i'w penodi i Is-bwyllgor Lles Economaidd y CBC.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mewn ymateb i argymhelliad adolygiad sicrwydd arall i ystyried penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf a darparu arbenigedd a her fasnachol i'r Bwrdd, cytunwyd ym mis Mawrth 2025 i benodi dau Ymgynghorydd Anweithredol. Cynigiwyd y dull hwn gan nad yw'n bosibl cyfethol y penodiadau ar sail y model arfaethedig. Eglurir y rhesymeg yn Adran Gyfreithiol yr adroddiad.
- 4.2. Bydd yr Ymgynghorwyr Anweithredol yn unigolion sydd â phrofiad sector preifat a masnachol sylweddol i gefnogi a herio'r Is-bwyllgor Lles Economaidd a gweithio gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Bydd y ddau unigolyn hyn hefyd yn gweithredu fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd ac y byddent yn mynychu'r Is-bwyllgor Lles Economaidd fel ymgynghorwyr. Mae'r gyllideb ar gyfer

y rolau a'r disgrifiadau rôl wedi'u cytuno o'r blaen gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd (cyllideb) a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (disgrifiadau rôl).

- 4.3. Ers cyfarfod y Cyd-bwyllgor Corfforedig ym mis Mawrth, mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi bod mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch y gyllideb ar gyfer y rôl a'r broses recriwtio/dethol.
- 4.4. Bydd y gyllideb ar gyfer y rolau hyn nawr yn cael ei gosod ar £30k cychwynnol fesul rôl Ymgynghorydd Anweithredol gyda dyraniad ychwanegol o £10k i Gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol a £5k i'r Is-gadeirydd. Mae hyn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd yn flaenorol o hyd at £50k y rôl.

Proses Recriwtio a Dethol Arfaethedig

- 4.5 O ganlyniad i'r cyfyngiadau cyfreithiol a nodir uchod, bydd angen caffael y rôl. Mae yna wahanol ddulliau y gellir eu mabwysiadu i sicrhau'r penodiad. Fodd bynnag, ac ar gyngor swyddogion y Llywodraeth, os yw'r rôl i gael ei phenodi drwy weithdrefn gystadleuol agored, mae gofynion penodol y bydd angen eu dilyn i gynnal proses gydymffurfio yn unol â gofynion Deddf Caffael 2023 (y "Ddeddf") a Rheoliadau cysylltiedig.
 - a) Yn ogystal â'r gofynion Swyddfa Phersonol a fabwysiadwyd, bydd pecyn caffael yn cael ei baratoi gyda meini prawf dyfarnu perthnasol
 - b) Hysbyseb – Bydd y rolau Ymgynghorydd Anweithredol yn cael eu hysbysebu ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru a sianeli cyfryngau cymdeithasol (Gorffennaf 2025) ac fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf
 - c) Ceisiadau – Gofynnir i ymgeiswyr sydd â diddordeb gyflwyno eu CV a'u llythyr eglurhaol yn nodi pam eu bod eisiau'r rôl (Gorffennaf 2025)
 - d) Asesu a Rhestr Fer – Bydd llythyrau eglurhaol a CVs yn cael eu hasesu yn erbyn y disgrifiadau rôl gan yr SRO a'r Prif Weithredwr a chynrychiolydd o'r Swyddfa Rheoli Portffolio a chytunir ar restr fer i gael eu gwahodd i gyfweiliad (i'w gadarnhau ym mis Awst)
 - e) Cyfweiliadau – Yna bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu cyfweild gan banel a fydd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, yr SRO, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro a fydd yn gwneud argymhellion i'w penodi i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd (Medi i'w gadarnhau) yn seiliedig ar y sgoriau terfynol ar ôl y cyfweiliad.
 - f) Penodiadau – penodiadau terfynol yn cael ei gwneud gan yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (3 Hydref 2025)

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn. Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer y rolau hyn am gyfnod o ddwy flynedd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd fel rhan o gyllideb 2025-26 a'i throsglwyddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ôl amnewid y Cynllun Twf ar 1 Ebrill 2025.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 6.1. Mae penodi'r Ymgynghorwyr Anweithredol yn cael ei wneud mewn ymateb i argymhellion adolygiad sicrwydd portffolio y Cynllun Twf. Fel endid awdurdod lleol, mae'r CBC, yn yr un modd



â'r Cynghorau cyfansoddol, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau o ran pwy all fod yn aelodau neu'n aelodau cyfetholedig. Mae Rheoliad 9A o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn atal deiliaid swyddi cyflogedig a benodir gan y CBC (yn yr ystyr corfforaethol) rhag bod yn aelodau cyfetholedig. Nid oes unrhyw rôl gyfwerth gyfatebol â rôl Cwmni o "Gyfarwyddwr Anweithredol" (NED) sydd fel arfer yn gysylltiedig â chwmnïau cyfyngedig cyhoeddus a sefydliadau sector preifat eraill.

- 6.2. Er mwyn ymateb i ofynion y Llywodraethau a phenodi i'r rolau hyn, mae'r model contract gwasanaethau arfaethedig yn cynnig y llwybr mwyaf priodol i sicrhau'r mewnbyn annibynnol a masnachol sydd ei angen. Bydd y rolau hyn yn cael eu caffael yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y CBC (CPR) a'r Ddeddf. Byddent yn gweithredu fel ymgynghorwyr i'r CBC mewn perthynas â'r Cynllun Twf ac yn gwasanaethu fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol. Byddent hefyd yn ddarostyngedig i ofynion mewn perthynas â rheoli Gwrthdaro Buddiannau a chyfrinachedd yr un fath ag aelodau eraill y Bwrdd Busnes Ymgynghorol.
- 6.3. Bydd y broses recriwtio a phenodi arfaethedig yn cael ei chynnal yn unol â gofynion Deddf Caffael 2023 i sicrhau cydymffurfiaeth.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

"Fel mae'r adroddiad yn esbonio, mae dod o hyd i lwybr i benodi'r ymgynghorwyr wedi gofyn am adnabod cerbyd i'w penodi sy'n gallu sicrhau y canlyniad gorau posibl tra'n cydymffurfio yn gyfreithlon. Mae'r llwybr "ymgynghori" yn cael ei ystyried fel y model penodiad sy'n gallu llywio'r materion hyn ac yn galluogi'r CJC trwy'r Is-bwyllgor i wneud apwyntiadau."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Gallaf gadarnhau bod cyllid ar gyfer y rolau hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2025/26 a gymeradwywyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 14 Chwefror 2025."



IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

11eg o Orffennaf, 2025

TEITL: Adroddiad Blynyddol 2024/25

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-2025.
- 1.2. Mae adrodd chwarterol a blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Bod yr Is-Bwyllgor yn ystyried ac yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25.
- 2.2. Bod y Is-Bwyllgor yn cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae'r adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf gan Uchelgaïs Gogledd Cymru. Yn bennaf mae'r adroddiad yn adrodd ar y Cynllun Twf, ac hefyd yn adrodd ar yr Cyd-Bwyllgor Corfforedig, Y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, a ffrydiau ariannu eraill megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac Cynlluniau Ynni Ardal Leol.
- 4.2. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf a'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflawni'r prosiectau ynghyd â cherrig milltir allweddol eraill sydd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:
 - Cymeradwyaeth 3 Achos Busnes Amlinellol, ar gyfer prosiectau Cydnerth, Di-wifr Uwch ac Anturiaethau Cyfrifol.
 - Cymeradwyaeth 6 Achos Busnes Llawn (neu Achos Cyfiawnhad Busnes), ar gyfer prosiectau Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, LPWAN (BJC), Canolfan Dechnoleg Biotechnoleg (BJC), Rhwydwaith Talent Twristiaeth, Parc Bryn Cegin, Cydnerth.
 - Gwaith ar y ddau brosiect o fewn y rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch yn mynd rhagddo'n dda ac yn unol a'r amserlen.



- Tynnu prosiect Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy yn ôl o'r Cynllun Twf, ar ôl sicrhau buddsoddiad ychwanegol gan y sector breifat i gyflawni'r prosiect o ganlyniad uniongyrchol i gydweithio agos rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a The Circular Economy Development.
- Penodi dau ymgynghorydd i ddarparu'r Gronfa Ynni Glân, y WCVA mewn partneriaeth ag Ynni Cymunedol Cymru yn arwain ar yr is-gronfa sector gwirfoddol, ac Umi ar yr i-gronfa sector breifat.
- Cyflawni a chwblhau y prosiect arianwyr gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn llwyddiannus, gyda un o'r uchafbwyntiau yn lansio Portal Sgiliau a Chyflogdwyedd Gogledd Cymru.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

ATODIADAU:

Atodiad 1	Adroddiad Blynnyddol 2024-25
------------------	------------------------------

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

“Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb”

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

“Ni fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd. Rwyf yn fodlon fod yr Adroddiad Blynnyddol yn adlewyrchiad cywir a theg o holl waith a chynnydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystod 2024/25.”



Adroddiad Blynyddol

2024/25

uchelgaisgogledd.cymru

Cynnwys

Rhagair	3
Bwrw twf yn ei flaen yn ein rhanbarth	4
Buddsoddi yng Ngogledd Cymru	5
Cerrig milltir	6
Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd	7
Uchafbwyntiau Chwarterol	11
Cynllun Twf Gogledd Cymru	24
Sgiliau a Chyflogadwyedd	33
Cynlluniau Ynni Ardal Leol	36
Cyllid Ffyniant Gyffredin	38
Elusen	41
Y 12 mis nesaf	43

EIN UCHELGAIS

Bod yn hyderus ac yn gydlynol, yn canolbwyntio ar wella lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.

Gweld y rhanbarth yn datblygu mewn modd cynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd, datblygu gyrfaedd gwerth chweil, i fusnesau dyfu ac i gymunedau ffynnu.

Gwneud hyn gan hyrwyddo'r Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth, ac yn unol â nodau lesiant Cymru.

Rydym yn falch iawn o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Uchelgais Gogledd Cymru 2024-25.

Dyma'r tro cyntaf i ni, gan i ni gael y fraint o ymgymryd â'n swyddi newydd fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gyda'n gilydd, ar y cyd, gyda'n cymheiriaid ar draws cynghorau Gogledd Cymru, rydym yn galonogol bod cynnydd wedi'i wneud ond yn benderfynol o wneud y mwyaf o gyflymder cyflawni – er budd ein busnesau a'n cymunedau rhanbarthol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed wrth gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru, gwaith sy'n gysylltiedig â'n cyfrifoldebau fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y rhanbarth – endidau a sefydlwyd yn 2021, yn ogystal â'n rôl wrth gyflawni prosiectau rhanbarthol ehangach.

Mae'r Cynllun Twf, sydd bellach yn ei bedwaredd flwyddyn, wedi gweld cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar lawer o brosiectau ar draws pob un o'i bum rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys ein prosiect adeiladu cyntaf sy'n cael ei gyflawni ar gyflymder, datblygiadau tuag at welliannau pellach mewn cysylltedd digidol, datblygiadau seilwaith a chynlluniau ynni carbon isel hanfodol sy'n gwneud cynnydd.

Mae effaith ac effeithiolrwydd gwaith y Cynllun Twf wedi'i wella ymhellach drwy gyflawni £126.5 miliwn o brosiectau a ariennir drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, a ddyrannwyd ar draws chwe ardal ein cynghorau.

Mae ein cyfrifoldebau fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd – ar drafnidiaeth ranbarthol a chynllunio strategol, a lles economaidd, wedi gweld camau gwirioneddol sylweddol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft ar gyfer Gogledd Cymru a'i ymgynghoriad cyhoeddus dilynol, ochr yn ochr â'r paratodau cychwynnol sy'n ymwneud â Chynllun Datblygu Strategol sydd ar ddod. Yn ogystal, bu cydweithrediad parhaus i sicrhau bod sylfeini cadarn yn cael eu gosod ar gyfer darparu Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae amseroedd cyffrous o'n blaenau hefyd wrth i strwythur llywodraethu Uchelgais Gogledd Cymru drosglwyddo cyn bo hir o gael ei arwain gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, dan arweiniad ei Fwrdd.

Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n gweld yr Adroddiad Blynyddol hwn yn dreiddgar wrth ddangos ehangder ein gwaith dros y 12 mis diwethaf, a'r flwyddyn gynhyrchiol sydd gennym o'n blaenau.



Y Cyng. Mark Pritchard
Cadeirydd Cyd-bwyllgor
Corfforedig y Gogledd



Y Cyng. Charlie McCoubrey
Cyd-bwyllgor Corfforedig
y Gogledd

Sicrhau Buddsoddiad, Sbarduno Newid

Dros y deuddeg mis diwethaf, rydym wedi cryfhau ein hymrwymiad ar y cyd i adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a chynhwysol ar gyfer Gogledd Cymru - ac wedi gweld yr ymrwymiad hwnnw'n troi'n ganlyniadau diriaethol. Mae'r cynnydd hwn yn glir yn ein Cynllun Twf gyda chwe phrosiect arall, yn ceisio cyfanswm o £30.3m mewn cyllid Cynllun Twf i gyflawni £153.7m mewn cyfanswm buddsoddiad, gan sicrhau penderfyniad buddsoddi terfynol yn ystod y flwyddyn:

- Cyn Ysbyty Gogledd Cymru - datblygu'r safle, gan gynnwys adfer yr adeilad rhestredig Gradd 2*, cartrefi newydd, mannau gwyrdd, cyfleuster hyfforddi, a gofod masnachol.
- Cydnerth - yn diogelu cynllun ynni llanw Morlais, sy'n cael ei redeg gan Fenter Môn, i'r dyfodol, drwy alluogi ei gapasiti grid 18MW i gynyddu dros amser i 240MW.
- Rhwydwaith Talent Twristiaeth - creu cyfleusterau hyfforddi a throsglwyddo gwybodaeth o'r radd flaenaf ar draws pum lleoliad yng Ngogledd Cymru.
- Parc Bryn Cegin - datblygu safleoedd cyflogaeth ynni-effeithlon sy'n addas ar gyfer busnesau newydd a phresennol i ehangu ac adleoli.
- LPWAN - yn anelu at gyflawni gwelliannau seilwaith a fydd yn cryfhau technoleg di-wifr a'i chymhwyso ledled y rhanbarth.
- Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol - creu offer newydd a chyfleusterau ehangu newydd i'w defnyddio wrth archwilio'r defnydd o brosesau biolegol fel dewisiadau amgen carbon isel i gynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol

Mae'r prosiectau hyn yn ychwanegu at gyfanswm y buddsoddiad hyd yma sy'n £16.61 miliwn, gyda £15.3 miliwn ohono yn cael ei ariannu'n uniongyrchol drwy'r Cynllun Twf. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu nid yn unig graddfa yr uchelgais ond hefyd yr ymddiriedaeth a roddir yn ein gallu i gyflawni newid ystyrlon.

Mae ein gwariant hyd yma yn amlwg yn cael ei ddominyddu gan ymyrraeth y sector cyhoeddus, ond ni ddylai hyn fod yn syndod i unrhyw un. Mae llawer o'n prosiectau yn targedu methiannau marchnad cronig ac sydd wedi'u gwreiddio a fyddai, heb gyllid cyhoeddus, yn parhau i fod yn rhwystrau sylweddol i fuddsoddiad yn y sector preifat. Mae ein dyfodol yn dibynnu ar ymrwymladau ariannol ar y cyd ar draws Llywodraethau a sectorau i wella seilwaith y rhanbarth a chreu'r amodau ar gyfer buddsoddiad parhaus yn y sector preifat ac economi ffyniannus.

Roeddem yn gwybod na fyddai ein huchelgeisiau yn cael eu gwireddu dros nos, ac mae eleni wedi cael ei nodi gan newid sylweddol tuag at gyflawni. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r Cynllun Twf wedi galluogi mwy o gryfder yn ein cydweithrediad rhanbarthol, ac mae bellach yn dechrau cael effaith drwy gyflawni ei brosiectau.

parhad....

parhad.... **Sicrhau Buddsoddiad, Sbarduno Newid**

Drwy ein Hadolygiad Sicrwydd Portffolio annibynnol blynyddol ym mis Hydref, cawsom argymhellion defnyddiol a fydd yn ein cefnogi ymhellach i gyflawni'n effeithiol gyda'n partneriaid. Rydym eisoes yn gweithio ar ddatblygu proses i adnabod prosiectau newydd posibl ar gyfer rhestr wrth gefn y Cynllun Twf a llwybr symlach cysylltiedig i benderfyniadau ariannu.

Mae buddsoddiad rhanbarthol wrth wraidd ein cenhadaeth. Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru berthynas hirsefydlog ac ymddiriedol gyda'r sector preifat, gyda chysylltiadau cryf â sylfaenwyr ac uwch arweinwyr ar draws diwydiannau allweddol. Mae'r ymgysylltiad hwn yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan waith Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n eistedd o fewn ein sefydliad ac sy'n darparu mewnwelediad gwerthfawr gan ddiwydiant ac addysg i lunio ein cynlluniau sgiliau a chyflogadwyedd.

Mae'r holl gydweithrediadau hyn yn allweddol - nid yn unig wrth gyflawni'r Cynllun Twf, ond hefyd wrth gyflawni ein rôl ehangach fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gyda chyfrifoldeb statudol i hyrwyddo a gwella lles economaidd y rhanbarth. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi dangos beth y gellir ei gyflawni drwy weithio mewn partneriaeth gref, yn enwedig gyda datblygiad llwyddiannus y gwaith Treulio Anaerobig yng Nglannau Dyfrdwy. Mae'r prosiect hwn, a fanylir yn yr adroddiad hwn, yn enghraifft o sut all cydweithio agos â'r sector preifat ddatgloi buddsoddiad ychwanegol - yn yr achos hwn, gan ryddhau £6.4 miliwn o gyllid y Cynllun Twf i'w ail-fuddsoddi mewn mannau eraill.

Mae ein rôl wrth sicrhau a galluogi buddsoddiad yn parhau i dyfu. Rydym yn falch o fod yn gweithio gyda Chyngor Sir y Fflint, Cyngor Wrecsam, a phartneriaid ehangach i hyrwyddo Parth Buddsoddi yn y rhanbarth. Gydag ymrwymiad degawd o hyd at £160 miliwn gan Lywodraethau'r DU a Chymru, nod y fenter hon yw cryfhau clwstwr gweithgynhyrchu uwch sy'n arwyddocaol yn fyd-eang ac sydd â manteision pellgyrhaeddol ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt.

Mae'n anrhydedd arwain tîm mor ymroddedig a blaengar. Hoffwn ddiolch i'n Bwrdd, partneriaid a rhanddeiliaid am eu cydweithrediad a'u hymrwymiad parhaus. Gyda'n gilydd, rydym yn gwneud cynnydd gwirioneddol - ac yn sicrhau effaith barhaol i Ogledd Cymru.



Alwen Williams

Cyfarwyddwr Portffolio a Phrif
Weithredwr Dros Dro Rhan-amser
Uchelgais Gogledd Cymru



Hedd Vaughan-Evans

Pennaeth Gweithrediadau
a Dirprwy Gyfarwyddwr
Portffolio Rhan-amser
Uchelgais Gogledd Cymru



Ebrill

Cynhaliodd yr RSP ei Gynhadledd "Taclo Heriau Gweithlu a Sgiliau" ar gyfer cyflogwyr yn Venue Cymru.



Mai

Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd achosion busnes ar gyfer 4 prosiect – Cyn Ysbyty Gogledd Cymru (FBC), Cydnerth (OBC), LPWAN (BJC), Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (BJC)



Mehefin

Agorwyd y grant cymorth ysgrifennu cais yr SPF am geisiadau.



Gorffennaf

Lansiwyd ein harolwg Effaith a Gwerth Cymdeithasol ar gyfer cyflogwyr – i ddeall ymwybyddiaeth, safbwyntiau ac arferion.



Tachwedd

Penodwyd dau gynghorydd cronfa i ddarparu'r Gronfa Ynni Glân – bydd WCVA mewn partneriaeth â Ynni Cymunedol Cymru yn arwain ar is-gronfa'r sector gwirfoddol, ac UMi ar is-gronfa'r sector preifat.



Hydref

Llofnodwyd y Cytundeb Cyllido ar gyfer prosiect y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol.



Medi

Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth.



Awst

Dechreuodd Clinigau Cysylltedd mewn cymunedau fel rhan o'n prosiect Cysylltedd Digidol Gwledig a ariennir gan SPF.



Rhagfyr

Partner mewn Sefydliad Rheoli Clwstwr wedi lansio i yrru arloesedd technoleg amaeth a thechnoleg bwyd ar draws Canolbarth a Gogledd Cymru.



Ionawr

Lansiwyd Portal Sgiliau a Chyflogadwyedd Gogledd Cymru a ariennir gan SPF.



Chwefror

Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd 3 achos busnes: Parc Bryn Cegin (FBC), Cydnerth (FBC), Antur Gyfrifol (OBC).



Mawrth

Cyrhaeddodd ein hymngynghoriad 12 wythnos ar ddrafft Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ei bwynt hanner ffordd.

CYD- BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD



CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

Mae Uchelgais Gogledd Cymru bellach yn Gyd-bwyllgor Corfforedig (CBC). Mae hyn yn golygu ei fod bellach yn endid cyfreithiol ei hun, yn hytrach na chael ei letya gan awdurdod lleol. Fel CBC, mae gan Uchelgais Gogledd Cymru ddau gyfrifoldeb statudol newydd – am drafnidiaeth ranbarthol a chynllunio strategol, yn ogystal â chyfrifoldeb anstatudol i wella a hyrwyddo lles economaidd Gogledd Cymru. Mae'r CBC wedi mabwysiadu'r brand Uchelgais Gogledd Cymru ac mae'n gweithredu fel sefydliad partneriaeth sy'n cynnwys y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Yn ystod 2024/25, gweithiodd Uchelgais Gogledd Cymru tuag at drosglwyddo ei Swyddfa Rheoli Portffolio a Chynllun Twf Gogledd Cymru i'r CBC ar 1 Ebrill 2025.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Datblygwyd drafft o Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, ynghyd â'r dogfennau ategol angenrheidiol. Mae'r cyhoeddiad yn amlinellu'r polisiau i gyflawni system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy, fforddiadwy ac integredig ar gyfer Gogledd Cymru. Ar 20 Ionawr 2024, dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar ddrafft Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Cynllun Datblygu Strategol

Bydd Cynllun Datblygu Strategol Gogledd Cymru yn sicrhau bod y rhanbarth, yn ei gyfanrwydd, yn cael ei ystyried mewn un cynllun – gan adlewyrchu sut mae pobl yn byw, sut mae marchnadoedd a busnesau yn gweithredu. Mae camau gweithredu'r SDP wedi canolbwyntio ar ymgysylltu cryf gyda'r bwriad o gynhyrchu dogfen Cytundeb Cyflawni, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn Haf 2025.


Lles Economaidd

Mae hyn yn adlewyrchu gwaith cyfredol Uchelgais Gogledd Cymru, gan gynnwys cyflawni Cynllun Twf y rhanbarth. Mae hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb CBC i weithio mewn partneriaeth â chynghorau Sir y Fflint a Wrecsam i ddarparu Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, sydd i weld buddsoddiad hyd at £160m dros 10 mlynedd.


CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU (DRAFFT)

Fe wnaethom ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft ochr yn ochr â phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru.

Roedd y Cynllun yn amlinellu ein polisiau a'n ymyriadau strategol tan 2030, ar draws gwahanol ddulliau trafnidiaeth a theithio. Gan ganolbwyntio ar integreiddio ac arloesi, roedd yn anelu at ddarparu mwy o ddewisiadau teithio a gwell cysylltedd digidol i drigolion ac ymwelwyr, tra hefyd yn lleihau ein heffaith amgylcheddol. Agorodd yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar 20 Ionawr 2025, gan annog y cyhoedd, busnesau, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau cymunedol ac ymwelwyr i edrych ar y Cynllun drafft, ac i roi adborth.



Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn hygyrch, cafodd ei gynhyrchu fel dogfen 'Hawdd ei Darllen' gan Anabledd Dysgu Cymru, a chyhoeddwyd Cwestiynau Cyffredin. Roedd y sianeli i ymateb yn cynnwys RHADBOST, e-bost a thrwy Ystafell Ymgysylltu Rhithwir.



PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM

Ymrwymiad ar y cyd gan lywodraethau'r DU a Chymru, nod y Parth Buddsoddi yw gwella a thyfu clwstwr gweithgynhyrchu uwch arwyddocaol, byd-eang yng Ngogledd-ddwyrain Cymru.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chynghorau Sir y Fflint a Wreccsam i ddarparu Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wreccsam a fydd yn gweld buddsoddiad o hyd at £160m dros 10 mlynedd.

Bydd yn rhyddhau potensial pellach i Sir y Fflint a Wreccsam, sydd eisoes yn gartref i weithrediadau gweithgynhyrchu gwerth uchel a safleoedd diwydiannol strategol, drwy gynnig cymysgedd unigryw o gefnogaeth, isadeiledd a chymhellion wedi'u targedu sydd wedi'u cynllunio i ddenu a chynnal busnesau.


Bydd y buddion yn bellgyrhaeddol, gan ymestyn ar draws gogledd Cymru a thu hwnt.

“

"Bwriedir i'r Parth Buddsoddi drawsnewid y rhanbarth yn ganolbwynt ar gyfer rhagoriaeth ym maes gweithgynhyrchu uwch, a'i ddatblygu yn lleoliad deniadol ar gyfer buddsoddwyr a mewnfuddsoddi. Mae'r pecyn ariannu £160 miliwn yn llawer mwy nag ysgogiad tymor-byr; mae'n addewid am ddegawd. Bydd nid yn unig yn galluogi datblygu safleoedd allweddol, ond hefyd y seilwaith sydd ei angen i'w cyflawni'n effeithiol, ochr yn ochr â'r gweithlu medrus sydd ei angen i wneud y safleoedd hynny'n llwyddiant."

”

Cyng Mark Pritchard, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam a Chadeirydd, Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a Cyng Dave Hughes, Arweinydd, Cyngor Sir y Fflint, Aelod o Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd



“

"Yn hanfodol i ni, mae cynaliadwyedd hefyd wrth wraidd cynlluniau i'r dyfodol, gyda phartneriaid yn ymrwmo i alinio datblygiadau ag egwyddorion gweithgynhyrchu gwyrdd, creu swyddi sgiliau uchel a gyrru twf economaidd tra hefyd yn diogelu ein hamgylchedd. Dyma gyfle hynod o gadarnhaol i Ogledd Cymru, ac rwy'n teimlo'n gyffrous am y posibilïadau a ddaw yn ei sgil."

”

Alwen Williams, Uchelgais Gogledd Cymru

UCHAFBWYNTIAU CHWARTEROL

UCHAFBWYNTIAU CHWARTER 1

Ebrill - Mehefin 2024

CYMERADWYO ACHOS BUSNES LLAWN CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU

Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yr achos busnes llawn ar gyfer Cyn Ysbyty Gogledd Cymru. Bydd y prosiect yn gweld y safle yn cael ei ddatblygu, gan gynnwys adfer yr adeilad rhestredig Gradd 2*, cartrefi newydd, mannau gwyrdd, cyfleuster sgiliau a hyfforddi, a gofod masnachol.



LANSIO YMYRIADAU DIGIDOL SPF

Dechreuodd gwaith ar y ffrydiau gwaith a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Penodwyd Annog Cyf i gyflwyno rhaglen i gefnogi cymunedau i wella eu band eang.

Dechreuodd BIC Innovation gyflwyno prosiect sy'n darparu cyngor ac arweiniad i fusnesau bach ar sut y gallant fabwysiadu'r technolegau cyfathrebu digidol diweddaraf.

Lansiwyd y pecyn cymorth Ysgrifennu Bidiau Ynni Lleol Blaengar, gyda thendr ar agor i adnabod rhestr o gyflenwyr, ac agorwyd ceisiadau ar gyfer busnesau bach a chanolig, mentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol i gaffael ymgynghorydd ysgrifennu ceisiadau.

Mewn partneriaeth gyda chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) lansiwyd gwedd 2 y prosiect Allyriadau a Bioamrywiaeth gyda'r amcan o symleiddio'r dull yn unol â phrosesau achosion busnes llywodraeth leol; a hyfforddi dros 75 o reolwyr prosiect a phenderfynwyr ar draws Cymru i ddefnyddio'r dull.

TACLO HERIAU GWEITHLU A SGILIAU

Trefnwyd cynhadledd, a oedd yn rhoi mewnwelediadau i gyflogwyr Gogledd Cymru ar recriwtio a chadw staff, gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Cyflwynodd y prif siaradwr, Craig Weeks o JCB bersbectif personol ar ddatblygu sgiliau; a rhoddodd y digwyddiad blatfform i arbenigwyr eraill a siaradodd ar bynciau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, o ddatblygu sgiliau i reoli Gen Z. Roedd pob un yn canolbwyntio ar atebion arloesol i heriau sy'n gysylltiedig â denu a chadw talent.

Mynychodd dros 150 o bobl, gan rannu eu profiadau a thrafod eu gofynion sgiliau gydag arbenigwyr ac arddangoswyr.

Gyda mewnwelediadau a strategaethau wedi'u cyfnewid, gadawodd mynychwyr gyda syniadau i helpu i symud eu busnesau ymlaen yn y farchnad bresennol.



UCHAFBWYNTIAU CHWARTER 2

Gorffennaf i Fedi 2024

CYMERADWYO ACHOS BUSNES AMLINELLOL DI-WIFR UWCH

Cymeradwywyd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r prosiect sy'n rhan o'r Prosiect Campysau Cysylltiedig ehangach yn gynllun grant gwerth £19 miliwn i helpu busnesau preifat a sefydliadau'r sector cyhoeddus i uwchraddio eu systemau i atebion di-wifr uwch fel y safonau diweddaraf o Wi-Fi, technolegau rhwydwaith Ardal Eang Pŵer Isel, megis LoRaWAN, lloeren a 5G.

LPWAN YN ADDO RHOI HWB I ALLU DIGIDOL

Cymeradwywyd yr Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer y Rhwydwaith Ardal Eang Pŵer Isel (LPWAN) gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae LPWAN yn darparu cysylltedd di-wifr pŵer isel dros bellteroedd hir, gan alluogi ystod eang o ddyfeisiau a synwryddion i gael eu cysylltu yn gost-effeithiol. Nod y prosiect yw cyflawni gwelliannau seilwaith a fydd yn cryfhau technoleg di-wifr a'i chymhwyso ledled y rhanbarth.

Bydd y fenter yn canolbwyntio ar ehangu darpariaeth gyfredol o fath o dechnoleg LPWAN, LoRaWAN (rhwydweithiau ardal eang ystod hir), i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus trwy fwy o ddefnydd o'r Rhyngrwyd Pethau (IoT). Mae'r ehangu ddarpariaeth yn cyd-fynd â Strategaeth Digidol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru.



CYMERADWYO CANOLFAN BIOTECHNOLEG AMGYLCHEDDOL+

Cymeradwywyd yr achos cyfiawnhau busnes ar gyfer prosiect CEB+ gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan sicrhau cyllid o'r Cynllun Twf.

Bydd y prosiect trawsffurfiol yn ymchwilio i ensymau unigryw a'r defnydd posib ohonynt fel cynhyrchion a phrosesau fydd yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd na deunyddiau cyfredol a chemegau diwydiannol.

Yn ogystal, mae gan y cyfleuster ar safle Henfaes Prifysgol Bangor y potensial i greu hyd at 65 o swyddi newydd, cynhyrchu hyd at £15m o GVA ychwanegol ac uwchsgilio busnesau.

CEFNOGI GWERTH CYMDEITHASOL YN Y RHANBARTH

Fe wnaethom lansio Arolwg Effaith a Gwerth Cymdeithasol ar gyfer cyflogwyr, i ddeall safbwyntiau, gweithredoedd a dyheadau. Mae'r canlyniadau, a rannwyd trwy weithdy ar-lein, wedi ein galluogi i:

- Wella ein dull o ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn prosesau caffael
- Deall ystyriaethau yn well wrth i ni adeiladu rhaglen gymorth werthfawr
- Llywio strategaethau a pholisïau ar gyfer hyrwyddo gwerth cymdeithasol yng Ngogledd Cymru

PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM

Gan weithio gyda Chynghorau Sir y Fflint a Wreccsam, fe wnaethom gyhoeddi galwad agored am brosiectau a safleoedd i lywio datblygiad Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wreccsam.

Mae'r ymrwymiad gan Lywodraethau'r DU a Chymru yn cynnig buddsoddiad o hyd at £160m, dros 10 mlynedd ar gyfer datblygu Parth Buddsoddi Gweithgynhyrchu Uwch, gyda manteision pellgyrhaeddol yn ymestyn ledled gogledd Cymru a thu hwnt.

UCHAFBWYNTIAU CHWARTER 3

Hydref i Ragfyr 2024

SICRHAU CYLLID SECTOR PREIFAT AR GYFER PROSIECT GLANNAU DYFRDWY

Fe wnaethom gyhoeddi y byddai datblygiad Safle Treuliad Anaerobig Glannau Dyfrdwy yn mynd rhagddo heb fod angen cyllid sector cyhoeddus y Cynllun Twf - wedi i fuddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat gael ei sicrhau ar gyfer y prosiect.

Roedd hyn yn dilyn misoedd o gydweithrediad agos â The Circular Economy (TCE) - ein partner ar brosiect Glannau Dyfrdwy. Roedd gwaith partneriaeth llwyddiannus a gwaith sylfaenol gan y ddau barti wedi galluogi i fuddsoddwr ymrwymo'r gofyniad cyllido sy'n weddill ar gyfer y safle drwy Gronfa Seilwaith Cynaliadwyedd Abdrn.

YMGYNGHORWYR Y GRONFA WEDI'U PENODI I GYFLAWNI'R GRONFA YNNI GLÂN

Fe wnaethom benodi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ac UMi, yn dilyn proses gaffael gystadleuol, i baratoi a defnyddio prosiect y Gronfa Ynni Glân.

Bydd y gronfa gwerth £24.6m yn cynnwys dwy is-gronfa, gyda WCVA yn gweithio ar y cyd ag Ynni Cymunedol Cymru ar is-gronfa'r trydydd sector; ac UMi yn arwain yr is-gronfa sy'n targedu'r sector preifat.

Bydd y prosiect Cronfa Ynni Glân yn anelu i gefnogi mentrau sy'n helpu i gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio ac sydd ag elfen o berchnogaeth leol.

Ar ôl ei lansio ym mis Gorffennaf 2025, bydd WCVA ac UMi yn cynnal y prosiect dros gyfnod cychwynnol o 5 mlynedd.



LANSIO SEFYDLIAD RHEOLI CLWSTWR NEWYDD

Mewn partneriaeth â Tyfu Canolbarth Cymru, M-SParc ac Arloesi Aber, roeddem yn falch o gyhoeddi lansiad swyddogol y Sefydliad Rheoli Clwstwr (CMO) i yrru arloesedd technoleg amaeth a thechnoleg bwyd ar draws gogledd a chanolbarth Cymru.

Bydd y Sefydliad Rheoli Clwstwr yn cydlynu gweithgareddau ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyllido sydd ar gael drwy brosiect a fydd yn rhedeg i ddechrau am ddwy flynedd gan ddefnyddio cyllid gan Innovate UK. Y nod yw cryfhau cydweithredu rhwng busnesau, sefydliadau ymchwil, a phartneriaid rhanbarthol i hybu arloesedd a chystadleuaeth yn y sectorau bwyd-amaeth a thechnoleg amaethyddol.



RHWYDWAITH TALENT TWRISTIAETH YN BAROD I DRAWSNEWID

Cafodd Achos Busnes Llawn y prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth ei gymeradwyo - gan sicrhau £4.43m o gyllid y Cynllun Twf, fydd yn datgloi cyfanswm buddsoddiad o £19m mewn cyfleusterau hyfforddi a throsglwyddo gwybodaeth o'r radd flaenaf ar draws pum lleoliad yng Ngogledd Cymru.

Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan Grŵp Llandrillo Menai mewn cydweithrediad â busnesau 'Spoke' - Portmeirion a Zip World, gyda dau arall i'w penodi yn 2025, a phartneriaethau strategol gyda Snowdonia Hospitality and Leisure a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Gyda'i gilydd byddant yn creu rhwydwaith o gyfleusterau o'r radd flaenaf a fydd yn dod yn angorau ar gyfer darparu prentisiaethau a chefnogaeth sgiliau arbenigol arall, ymgysylltu helaeth â busnesau bach a chanolig a microfusnesau, yn ogystal â rhaglen gynhwysfawr o allgymorth ysgolion ar draws y rhanbarth

UCHAFBWYNTIAU CHWARTER 4

Ionawr i Fawrth 2025

GOLAU GWYRDD I DDATBLYGIAD NEWYDD YM MHARC BRYN CEGIN

Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer datblygu unedau cyflogaeth newydd ym Mharc Bryn Cegin ar gyrion Bangor.

I'w darparu mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, bydd yr unedau yn darparu 1,730 metr sgwâr o arwynebedd llawr ynni-ffeithlon, a fydd yn garbon gweithredol sero net pan fyddant yn cael eu defnyddio.

Y nod yw sbarduno twf busnes a chreu swyddi yng Ngogledd Orllewin Cymru drwy ddarparu unedau o ansawdd uchel sy'n addas ar gyfer busnesau lleol sy'n dymuno adleoli a mewnfuddsoddwyr.

LANSIO PORTAL SGILIAU GOGLEDD CYMRU

Fe wnaethom lansio Portal Sgiliau Gogledd Cymru, llwyfan ar-lein newydd fel 'portal i gyfleoedd' y rhanbarth. Mae'n cynnig mynediad at swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi gan ddarparu mynediad i gyflogwyr i'r cymorth sydd ar gael i ddatblygu eu gweithlu.

Gan weithio gyda phartneriaid allweddol, datblygodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru (RSP) y Portal gan ddefnyddio adborth gan gyflogwyr a'r diwydiant. Mae'r adborth yn awgrymu y gellir gwneud mwy i helpu pobl a chyflogwyr i ddeall a llywio'r gwahanol gyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a chymorth yn y rhanbarth.

Mae'r Portal yn mynd i'r afael â hyn drwy ddarparu canolbwynt canolog i bobl sy'n chwilio am eu cyfle nesaf a chyflogwyr sy'n edrych i ehangu eu rhwydweithiau ar gyfer talent leol.



CYDNERTH I ROI HWB I DDATBLYGIADAU YNNI LLANW

Llwyddodd Cydnerth, prosiect ynni carbon isel mawr o fewn y Cynllun Twf, i symud ymlaen cam yn nes at cyflawni, ar ôl cymeradwyo ei Achos Busnes Llawn.

Bydd prosiect Cydnerth yn diogelu cynllun ynni llanw Morlais, sy'n cael ei redeg gan Fenter Môn, i'r dyfodol drwy alluogi ei gapasiti grid 18MW i gynyddu dros amser i 240MW.

Bydd yr ehangu yn creu hyd at 230 o swyddi newydd a chyfleoedd cadwyn gyflenwi, gan gadarnhau safle'r rhanbarth yn y sector ynni llanw.



CYMERADWYO ACHOS BUSNES AMLINELLOL ANTUR GYFRIFOL

Dan arweiniad Zip World, cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol y fenter fawr hon o fewn y Cynllun Twf. Byddai'r prosiect yn cael ei weithredu ar draws dau safle diwylliannol pwysig - Chwareli Llechwedd a Chwareli Penrhyn, ac mae wedi'i ddylunio i gynyddu'r amser ac arian mae ymwelwyr yn ei dreulio a'i wario yn yr ardal, gan hefyd sicrhau'r effaith leiaf bosib yn amgylcheddol ond y buddion diwylliannol a chymdeithasol mwyaf posib i gymunedau lleol.

CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Fe wnaethom ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft ochr yn ochr â phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Arweiniodd hyn at ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, a lansiwyd ym mis Ionawr 2025, ar ei gynnwys.





Cynnydd ar y prosiect adeiladu cyntaf

Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter

Ar ddechrau 2024, y Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter (EEOC) oedd prosiect adeiladu cyntaf Cynllun Twf Gogledd Cymru i symud i gael ei gyflawni – ac ar hyn o bryd, mae'r gwaith adeiladu yn fater o wythnosau i ffwrdd o'i gwblhau.

Mae'r EEOC ym Mhrifysgol Wrecsam yn ddatblygiad arloesol, a fydd yn dod yn ganolfan arbenigol ar gyfer ymgysylltu â'r diwydiant, ymchwil ac arloesi. Bydd y datblygiad yn darparu canolfan i Ogledd Cymru ar gyfer cydweithio a datblygu sgiliau ym maes cynaliadwyedd, ynni adnewyddadwy, a gweithgynhyrchu gwerth uchel. Dan ffocws arbennig y mae cyfansoddion fel dewisiadau amgen ysgafn ar gyfer gweithgynhyrchu, cefnogi datblygu a mabwysiadu technolegau hydrogen, a gwneud y mwyaf o fanteision arbenigedd opteg a ffotoneg.

Mae'r prosiect EEOC yn cael ei gyflawni ar draws dau o safleoedd y Brifysgol – campws Plas Coch yn Wrecsam a Chanolfan Dechnoleg OpTIC ar gampws Llanelwy.

Cyfanswm o £9.81m o fuddsoddiad hyd yma

2 swyddi uniongyrchol gros wedi'u creu

1 cydweithrediad wedi'i greu

10 camau gweithredu i ddatblygu cadwyn gyflenwi leol

1 fenter wedi'i chefnogi

“Mae adeiladu'r EEOC yn cyd-fynd ag un o'n nodau allweddol o'n gweledigaeth sydd newydd ei lansio, sef sicrhau rhagoriaeth yn ansawdd ac effeithiau ymchwil a menter, ac yn ei dro, cyflawni arloesedd llwyddiannus ac effaith drawsnewidiol.

Edrychwn ymlaen at agor yr adeilad ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf ym mis Medi, a'n helpu i wireddu ein huchelgeisiau o fod yn ganolfan arbenigol ar gyfer ymchwil a datblygu, a darparu arloesedd, a fydd yn gyrru twf economaidd, yma yng Ngogledd Cymru.

Diolch i Uchelgais Gogledd Cymru, gan na fyddai'r datblygiad arloesol hwn wedi bod yn bosibl heb fuddsoddiad gan Gynllun Twf Gogledd Cymru.”

Yr Athro Joe Yates, Is-Ganghellor, Prifysgol Wrecsam



Blwyddyn arall o'r DSP

Yn gynnar yn 2024, aeth prosiect Canolfan DSP Prifysgol Bangor i mewn i'w drydedd flwyddyn o gyflawni. Ers ei lansio, mae'r prosiect wedi ennill cydnabyddiaeth academiaidd a phroffesiynol.

Yn dilyn buddsoddiad gan y Cynllun Twf eleni, mae'r Ganolfan DSP wedi agor labordy arloesi i arddangos ei thechnolegau i bartneriaid rhanbarthol. Bydd hefyd yn arddangos cymwysiadau technoleg 5G a bydd yn sail i raglen ymgysylltu busnes rhanbarthol tair blynedd a gynlluniwyd i annog mabwysiadu a manteisio ar dechnoleg ddigidol ar draws ystod o sectorau rhanbarthol pwysig.



Cyfanswm o
£2.33m o
fuddsoddiad
hyd yma



creu 10 o
swyddi
uniongyrchol
gros



creu 9 o
swyddi
anuniongyrchol
gros



sicrhau £152
miliwn o gyllid
refeniw
ychwanegol



76 o ynhyrchion
rheoli
gwybodaeth
newydd wedi'u
creu a'u rhannu



12 eiddo
deallusol
newydd wedi'i
gofrestru o
brosiectau



Yr Athro William Heath, Pennaeth yr Ysgol, Cyfrifiadureg a Pheirianeg

"Mae buddsoddiad Cynllun Twf Gogledd Cymru yn galluogi i'r Ganolfan DSP ddatblygu a rhannu ei thechnoleg ddigidol ar draws y rhanbarth. Mae'r bartneriaeth eisoes yn darparu buddion. Rwy'n teimlo'n gyffrous am y cyfleoedd pellach i ehangu ein rhwydweithiau a chreu swyddi lleol ychwanegol."



Canolfan Biodechnoleg Amgylcheddol +

Ym mis Gorffennaf 2024, cymeradwywyd ail brosiect Cynllun Twf Prifysgol Bangor gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Nod y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol+ (CEB+) yw adeiladu ar lwyddiant academiaidd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol a phrofiad cydweithredol y Ganolfan Biogyfansoddion i greu amgylchedd newydd i archwilio a datblygu atebion cynaliadwy i heriau diwydiannol ac amaethyddol. Gan ddefnyddio catalog o dros 1,000 o ensymau, bydd y Ganolfan yn defnyddio offer newydd a chyfleusterau newydd i ehangu, a ariennir gan y Cynllun Twf i ddatblygu cynhyrchion a phrosesau newydd a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf brys sy'n wynebu cymdeithas heddiw. Prif amcanion y prosiect yw

- Gwella cyfleoedd economaidd rhanbarth Gogledd Cymru a thu hwnt drwy ymchwil ddiwylliannol gydweithredol, creu swyddi a thrwy ddenu mewnfuddsoddiad rhanbarthol.
- Creu cyfleoedd i ddiwydiant weithredu gyda chanlyniadau amgylcheddol gwell.

Mae'r cyfleusterau newydd i ehangu, sydd wedi'u lleoli yng Nghanolfan Ymchwil Henfaes ger Abergwyngregyn, yn agos at eu cwblhau a bydd hyn yn galluogi i'r prosiect agor yn ehangach i gydweithio â busnesau.

Mae'r prosiect eisoes wedi dechrau cyflawni'r canlynol yn erbyn amcanion allweddol Cynllun Twf Gogledd Cymru, sef creu swyddi, mwy o GVA a lefelau uwch o fuddsoddiad yn y rhanbarth:

- Swyddi gwerth uchel yn uniongyrchol yn y Ganolfan oherwydd mwy o weithgarwch
- Cyfleoedd mewnfuddsoddi a chyflogaeth ychwanegol drwy dwf gweithgarwch cysylltiedig
- Twf mewn gweithgarwch ymchwil yn y Brifysgol a gyda sefydliadau partner sy'n darparu cyflogaeth gwerth uchel pellach
- Myfyrwyr sy'n graddio a datblygiad proffesiynol parhaus sy'n berthnasol i'r sectorau targed.



Cyfanswm o £0.83m o fuddsoddiad hyd yma



Creu 7 o swyddi uniongyrchol gros



4 myfyriwr yn cwblhau cymwysterau



162m2 o arwynebedd llawr ymchwil wedi'i greu



41 o gydweithrediadau wedi'u creu i gefnogi'r prosiect



Tud. 44

Yr Athro Paul Spencer, Dirprwy Is-Ganghellor, Ymchwil:

"Mae'r buddsoddiad o'r Cynllun Twf wedi ein galluogi i symud i'r cam nesaf hanfodol wrth drosi rhagoriaeth ymchwil yn effaith go iawn a bydd yn meithrin mwy o dwf economaidd a ffyniant yng Ngogledd Cymru."




Rhwydwaith Talent Twristiaeth

Yn 2024, lansiwyd y Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn swyddogol fel rhan o bortffolio Cynllun Twf Gogledd Cymru, gyda'r nod o adeiladu gweithlu gwydn, medrus a pharod i'r dyfodol ar gyfer sectorau twristiaeth a lletygarwch y rhanbarth.

Wrth wraidd y prosiect hwn mae creu canolfan ragoriaeth ranbarthol yng Ngholeg Llandrillo. Bydd yr hwb hon wedi'i chysylltu'n agos â rhwydwaith o gyfleusterau hyfforddi rhagorol a gynhelir gan ein partneriaid Spoke: Zip World, Portmeirion, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Snowdonia Hospitality & Leisure. Gyda'i gilydd, bydd y cyfleusterau o'r radd flaenaf hyn yn darparu prentisiaethau, datblygu sgiliau, a chefnogaeth helaeth i fusnesau bach a chanolig, microfusnesau ac ysgolion ledled y rhanbarth.

Drwy ymgorffori ffocws trawsbynciol ar gynaliadwyedd, digideiddio, arloesi, ymdeimlad o le, a diwylliant, bydd y prosiect yn helpu i sicrhau bod twristiaeth a lletygarwch yn addas i'r dyfodol yng Ngogledd Cymru. Bydd yn cynyddu ansawdd, yn ysgogi creu swyddi, yn codi proffil y sector, ac yn ei leoli fel gyrfa o ddewis i gymunedau ledled y rhanbarth.

Wrth edrych ymlaen, yn ystod 2025 byddwn yn gweld adeiladu a lansio seilwaith partneriaid sector preifat, gan nodi cam mawr wrth ehangu cyrhaeddiad y rhwydwaith ledled Gogledd Cymru.



"Gan gydnabod graddfa ac ansawdd unigryw'r sector twristiaeth a lletygarwch yng Ngogledd Cymru, ein gweledigaeth ar gyfer y prosiect arloesol hwn yw sefydlu'r rhanbarth fel arweinydd mewn arloesedd twristiaeth gynaliadwy a lletygarwch. Rydym yn falch o weld y prosiect uchelgeisiol hwn yn symud i'w gam gweithredu ac rydym yn hyderus y bydd yn dod â manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol parhaol i Gogledd Cymru."

Aled Jones-Griffith
Prif Weithredwr
Grŵp Llandrillo Menai



Cyfanswm o £1.87m o
fuddsoddiad hyd yma





GWERTH CYMDEITHASOL

Mae Uchelgais Gogledd Cymru bob amser wedi ceisio gwneud y mwyaf o'r manteision i'r rhanbarth o'r gwariant cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Twf ac mae ein hegwyddorion caffael yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau gwerth ychwanegol drwy weithgarwch caffael. Rhan allweddol o hyn yw ymrwymiad i ymgorffori gwerth cymdeithasol wrth gyflawni'r Cynllun Twf. Mae'n ofynnol i bob pecyn caffael dros £100k gynnwys ymrwymadau gwerth cymdeithasol gyda noddwyr prosiect i gynnwys pwysoliad gwerth cymdeithasol o 15% yn eu meini prawf sgorio. Y prif nod yma yw sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol a buddion cymunedol o brosiectau ond amcan eilaidd yw cefnogi cwmnïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau contractau gan eu bod yn aml yn lleoedd da i ddarparu gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol.

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus - i sicrhau bod twf economaidd yn darparu manteision amgylcheddol a chymunedol.

Datgelodd arolwg diweddar o farchnad Cymru a gynhaliwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru fod gan sefydliadau mwy gogledd Cymru yn aml strategaethau gwerth cymdeithasol ffurfiol. Mae busnesau bach a chanolig yn dangos arferion moesegol cryf ond mae angen mwy o gefnogaeth i ffurfioli'r ymdrechion. Bydd Uchelgais

Rhwydwaith Twristiaeth Talent

Mae contract gwerth £2.9M wedi'i ddyfarnu i gyflenwr lleol yng ngogledd Cymru, sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu dwy is-ganolfan o fewn y rhaglen. Mae'r ddwy is-ganolfan wedi ymrwymo i ddefnyddio'r un cyflenwr, a fydd yn darparu cynnig Gwerth Cymdeithasol cryf, gan gynnwys:

- Hyrwyddo manteision yr economi gylchol i fusnesau lleol
- Buddsoddi mewn hyrwyddo mannau gwyrdd a bioamrywiaeth mewn lleoliadau addysg lleol
- Cyfrannu amser ac adnoddau i gefnogi addysg amgylcheddol ac ymgysylltu â'r gymuned
- Cefnogi gweithgareddau cwricwlwm STEM mewn ysgolion a cholegau lleol

Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol

Dyfarnwyd contract £500k+ i gyflenwr lleol yng ngogledd Cymru sydd â chynnig gwerth cymdeithasol cryf, gan gynnwys:

- Cefnogi'r economi gylchol
- Rhoddion i brosiectau bioamrywiaeth a chymunedol
- STEM a chefnogaeth cwricwlwm prifysgol
- Gwirfoddoli a gwarchod bywyd gwyllt

• Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter

Mae contract gwerth £10M+ wedi'i ddyfarnu i gyflenwr lleol yng ngogledd Cymru, sy'n cael ei gydnabod am ddarparu gwerth cymdeithasol eithriadol. Mae ymrwymadau gwerth cymdeithasol y cyflenwr eisoes yn cael effaith diriaethol, gan gynnwys:

- Creu cyfleoedd prentisiaeth lleol
- Cynnal a chreu swyddi lleol
- Darparu cefnogaeth ystyrlon i'r gymuned leol

YMGYNGHORWYR Y GRONFA WEDI'U PENODI I GYFLAWNI'R GRONFA YNNI GLÂN

Fe wnaethom benodi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ac UMi, yn dilyn proses gaffael gystadleuol, i baratoi a defnyddio prosiect y Gronfa Ynni Glân.

Bydd y gronfa gwerth £24.6m yn cynnwys dwy is-gronfa, gyda WCVA yn gweithio ar y cyd ag Ynni Cymunedol Cymru ar is-gronfa'r trydydd sector; ac UMi yn arwain yr is-gronfa sy'n targedu'r sector preifat.

Bydd prosiect y Gronfa Ynni Glân yn anelu at gefnogi mentrau sy'n helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio ac sydd ag elfen o berchnogaeth leol - sy'n golygu y bydd asedau sy'n eiddo i randdeiliaid sydd wedi'u lleoli ac sy'n gweithredu yn y rhanbarth yn elwa, boed hynny'n fusnesau, cymunedau neu sefydliadau'r sector gwirfoddol, yn amodol ar gymhwysedd.

Mae'r ddau Cyngorydd Cronfa bellach yn paratoi'r is-gronfeydd cyn lansio'r gronfa. Yna, bydd WCVA ac UMi yn cynnal y prosiect dros gyfnod o 5 mlynedd i ddechrau - gwaith a fydd yn cynnwys cyrchu ac argymell buddsoddiadau, diwydrwydd dyladwy yn ogystal â monitro cynnydd a pherfformiad pob grant a benthyciad.



Cronfa Ynni Glân
Clean Energy Fund



Dywedodd Nicki Clark o Umi:

"Rydym yn teimlo'n hynod o gyffrous a breintiedig o gael y cyfle i weithio mewn partneriaeth ag Uchelgais Gogledd Cymru a WCVA, i alluogi i sefydliadau yng Ngogledd Cymru greu effaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol go iawn a pharhaol drwy fabwysiadu ynni glân a chynaliadwy."

Dywedodd Alun Jones, Pennaeth Buddsoddi Cymdeithasol WCVA:

"Mae pob busnes cymdeithasol yn gweithio i gyflawni 'llinell waelod driphlyg' sef pobl, elw a phlaned ac maent ond yn rhy ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd ganddyn nhw wrth gefnogi'r agenda datgarboneiddio. Mae'r gronfa hon yn cynnig cyfle enfawr iddynt gael mynediad at gyllid i wneud i'w cynlluniau ddigwydd. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at helpu i gefnogi rhai prosiectau diddorol ac effeithiol."





GWERTH CYMDEITHASOL

Mae Uchelgais Gogledd Cymru bob amser wedi ceisio gwneud y mwyaf o'r manteision i'r rhanbarth o'r gwariant cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Twf ac mae ein hegwyddorion caffael yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau gwerth ychwanegol drwy weithgarwch caffael. Rhan allweddol o hyn yw ymrwymiad i ymgorffori gwerth cymdeithasol wrth gyflawni'r Cynllun Twf. Mae'n ofynnol i bob pecyn caffael dros £100k gynnwys ymrwymïadau gwerth cymdeithasol gyda noddwyr prosiect i gynnwys pwysoliad gwerth cymdeithasol o 15% yn eu meini prawf sgorio. Y prif nod yma yw sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol a buddion cymunedol o brosiectau ond amcan eilaidd yw cefnogi cwmnïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau contractau gan eu bod yn aml yn lleoedd da i ddarparu gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol.

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus - i sicrhau bod twf economaidd yn darparu manteision amgylcheddol a chymunedol.

Datgelodd arolwg diweddar o farchnad Cymru a gynhaliwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru fod gan sefydliadau mwy gogledd Cymru yn aml strategaethau gwerth cymdeithasol ffurfiol. Mae busnesau bach a chanolig yn dangos arferion moesegol cryf ond mae angen mwy o gefnogaeth i ffurfioli'r ymdrechion. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i ddatblygu'r cymorth a'r pecynnau adnoddau i gefnogi busnesau bach a chanolig (yn enwedig gyda chaffael) gyda chyflawni Gwerth Cymdeithasol yng ngogledd Cymru.

Rhwydwaith Talent Twristiaeth

Mae contract gwerth £2.9M wedi'i ddyfarnu i gyflenwr lleol yng ngogledd Cymru, sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu dwy is-ganolfan o fewn y rhaglen. Mae'r ddwy is-ganolfan wedi ymrwymo i ddefnyddio'r un cyflenwr, a fydd yn darparu cynnig Gwerth Cymdeithasol cryf, gan gynnwys:

- Hyrwyddo manteision yr economi gylchol i fusnesau lleol
- Buddsoddi mewn hyrwyddo mannau gwyrdd a bioamrywiaeth mewn lleoliadau addysg lleol
- Cyfrannu amser ac adnoddau i gefnogi addysg amgylcheddol ac ymgysylltu â'r gymuned
- Cefnogi gweithgareddau cwricwlwm STEM mewn ysgolion a cholegau lleol

Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol

Dyfarnwyd contract £500k+ i gyflenwr lleol yng ngogledd Cymru sydd â chynnig gwerth cymdeithasol cryf, gan gynnwys:

- Cefnogi'r economi gylchol
- Rhoddion i brosiectau bioamrywiaeth a chymunedol
- STEM a chefnogaeth cwricwlwm prifysgol
- Gwirfoddoli a gwarchod bywyd gwyllt

Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter

Mae contract gwerth £10M+ wedi'i ddyfarnu i gyflenwr lleol yng ngogledd Cymru, sy'n cael ei gydnabod am ddarparu gwerth cymdeithasol eithriadol. Mae ymrwymïadau gwerth cymdeithasol y cyflenwr eisoes yn cael effaith diriaethol, gan gynnwys:

- Creu cyfleoedd prentisiaeth lleol
- Cynnal a chreu swyddi lleol
- Darparu cefnogaeth ystyrlon i'r gymuned leol

Cydweithio traws-sector yn sicrhau cyfanswm cyllid sector preifat ar gyfer safle newydd

Derbyniodd Uchelgais Gogledd Cymru yn ffurfiol bod Safle Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy yn cael ei dynnu'n ôl o'r Cynllun Twf ym mis Tachwedd 2024.

Bydd y datblygiad yn mynd rhagddo heb yr angen am y £6.4m o gyllid y Cynllun Twf a ddyrannwyd. Mae'r canlyniad llwyddiannus hwn wedi bod yn bosibl oherwydd y cydweithrediad agos rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a The Circular Economy Developments Ltd, a alluogodd buddsoddwyr i ymrwymo i'r cyllid oedd ei angen ar gyfer y safle.

Bydd Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy yn defnyddio gwastraff bwyd o'r ardal i gynhyrchu ac allforio trydan gwyrdd a biomethan at ddefnydd masnachol. Ochr yn ochr â chreu cyflogaeth gwerth uchel, bydd y safle newydd yn garbon negyddol – gan ddarparu ffynhonnell ynni carbon sero mawr ei hangen ar gyfer diwydiant lleol, gan gynnwys helpu'r Cyfleuster Gweithgynhyrchu Toyota lleol i gyrraedd targedau datgarboneiddio. Yna bydd y gweddillion treulid wedi'u prosesu yn cael eu defnyddio i gynhyrchu gwartaith ar gyfer ffermydd lleol a bydd CO₂ yn cael ei ddal i'w storio neu ar gyfer defnydd diwydiannol.



Mac Andrade
Prif Weithredwr

The Circular Economy Developments Ltd



"Rydym wrth ein boddau i allu cadarnhau ein hymrwymiad i Lannau Dyfrdwy fel lleoliad pencadlys TCE. Mae'r penderfyniad hwn yn atgyfnerthu ein hymroddiad i gefnogi twf lleol, creu cyfleoedd swyddi cynaliadwy, a chyfrannu'n gadarnhaol at dirwedd economaidd y rhanbarth.

Drwy gydweithio'n agos ag Uchelgais Gogledd Cymru, rydym wedi cryfhau ein hymrwymiad a rennir i ddatblygu cynaliadwy yng Nglannau Dyfrdwy, gan feithrin cysylltiadau ystyrlon a fydd yn sbarduno twf lleol ac yn cefnogi economi wyrddach."



CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU



Cynllun Twf
Gogledd Cymru
North Wales
Growth Deal



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

funded by:



UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

TROSOLWG O'R CYNLLUN TWF

- Adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.
- Adeiladu ar ein cryfderau, hybu cynhyrchiant wrth fynd i'r afael â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.
- Hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

BUDDSODDIAD



£240M

Targed buddsoddiad y cynllun twf



Cyfanswm Buddsoddiad

Targed dros **£1bn**

AMCANION GWARIANT



Creu hyd at

4,200

o swyddi newydd



Cynhyrchu hyd at

£2.4bn

o GVA ychwanegol net

OUR PROGRAMMES



Arloesi mewn
Gweithgynhyrchu Gwerth
Uchel



Bwyd-amaeth a
Thwristiaeth



Cysylltedd Digidol



Tir ac Eiddo



Ynni Carbon Isel

Bwyd-amaeth a Thwristiaeth



Nod y rhaglen hon yw hyrwyddo a chefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd o'r radd flaenaf sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth.

ALLWEDD
SOC - Achos Amlinellol Strategol
OBC - Achos Fusnes Amlinellol
FBC - Achos Fusnes Llawn



Hwb Economi Wledig Glynllifon

Hwb economi gwledig arbennig, o safon fyd-eang, sy'n cynnig cyfleusterau a gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth gradd bwyd i wella'r sector bwyd a diod.




Rhwydwaith Talent Twristiaeth

Darparu sgiliau twristiaeth a lletygarwch ar gyfer y dyfodol a chynyddu'r manteision masnachol o un o'r sectorau sydd wedi'i sefydlu orau ac sy'n tyfu gyflymaf yn y rhanbarth.



Anturiaethau Cyfrifol

Bydd y prosiect hwn yn hyrwyddo Gogledd Cymru fel cyrchfan twristiaeth gynaliadwy flaenllaw. Nod y prosiect yw denu ymwelwyr ychwanegol mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac yn ystyriol i gymunedau lleol trwy wneud y mwyaf o'r buddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i'r rhanbarth.




Cysylltedd Digidol

Mynd i'r afael â heriau cysylltedd o fewn y rhanbarth, gam wella'r gallu i ddatblygu technolegau newydd ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gall busnesau a thrigolion elwa o gysylltedd cyflym, ansawdd uchel.


ALLWEDD
SOC - Achos Amlinellol Strategol
OBC - Achos Fusnes Amlinellol
FBC - Achos Fusnes Llawn





Y Ganolfan Prosesu Signal Digidol

Ymchwil a datblygu technolegau newydd sy'n gwella sut mae data yn cael ei brosesu'n effeithlon ac yn ddibynadwy rhwng dyfeisiau a phobl.







Fibr Llawn*

Bydd y prosiect yma yn cyflawni buddsoddiad strategol mewn rhwydwaith ffibr opteg i ddarparu mynediad eang i gysylltedd gigabit galluog i gefnogi twf economaidd yn y rhanbarth.








Diwifr Uwch

Bydd y prosiect Diwifr Uwch yn cefnogi sefydliadau yn y sector preifat a chyhoeddus i fabwysiadu'r technolegau diwifr diweddaraf i gefnogi gwell darpariaeth gwasanaeth, effeithlonrwydd busnes, arloesi a thwf, yn enwedig trwy ddefnyddio cymwysiadau 'y rhyngrwyd pethau'.





****Yn dilyn Adolygiad Portffolio, yn ffocysu ar effaith ac cyflawnadwyedd, cafodd y prosiect yma ei roi dynnu nol o'r Cynllun Twf yn mis Mai 2025.**



Yr Ychydig % Olaf*

Darparu band eang 'superfast' (30Mbps) o leiaf i gymunedau sydd â chysylltedd gwael ledled y Gogledd.








4G+

Bydd y prosiect hwn yn gwella cysylltedd symudol 4G mewn safleoedd economaidd allweddol yn y rhanbarth, gan dargedu llwybrau trafnidiaeth, hwbiau busnes a thwristiaeth wrth gefnogi defnydd pellach o rwydwaith 5G yn yr ardaloedd hyn.








LPWAN

Nod y prosiect hwn yw darparu rhwydwaith eang a hygyrch LoRaWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Ystod Hir) ledled y rhanbarth, gan ddarparu datrysiad cost effeithiol i fusnesau a defnyddwyr y sector cyhoeddus ar gyfer mabwysiadu cymwysiadau 'y rhyngrwyd pethau' a chefnogi arloesedd.







Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uwch

Hyrwyddo arloesedd a masnacholi technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector o fewn ein rhanbarth.



Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol

Archwilio'r defnydd o brosesau biolegol fel dewisiadau carbon isel yn lle cynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol.



SOC wedi gymeradwyo



BJC wedi gymeradwyo



Gweithredu a cyflawni



Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter

Darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i archwilio opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd fel dewis amgen o ddeunydd ysgafn, a fydd yn lleihau carbon o fewn y sector gweithgynhyrchu.

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University



SOC wedi gymeradwyo



OBC wedi gymeradwyo




FBC wedi gymeradwyo



Gweithredu a cyflawni

ALLWEDD
SOC - Achos Amlinellol Strategol
OBC - Achos Fusnes Amlinellol
FBC - Achos Fusnes Llawn



Tir ac Eiddo

Mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, i ddatgloi cyfleoedd ac adeiladu ar ein cryfderau. Datblygu safleoedd i ddarparu eiddo preswyl a chyflogaeth. Bydd hefyd yn sicrhau'r capasiti mwyaf posibl mewn cysylltiadau trafnidiaeth allweddol.

ALLWEDD
SOC - Achos Amlinellol Strategol
OBC - Achos Fusnes Amlinellol
FBC - Achos Fusnes Llawn



Cyn Ysbyty Gogledd Cymru

Cael gwared ar adeiladau peryglus a pharatoïr safle ar gyfer cartrefi newydd ac unedau masnachol newydd i fusnesau newydd a phresennol adleoli ac ehangu.

SOC wedi gymeradwyo

OBC wedi gymeradwyo

FBC wedi gymeradwyo

Gweithredu a cyflawni





Porth Caergybi

Gwella capasiti a chyfleusterau'r porthladd, creu angorfa amlbwrpas i brosiectau ynni newydd, traffig masnachol a llongau mordeithio.

SOC wedi gymeradwyo

Prosiect yn cael ei adolygu





Parc Bryn Cegin

Datblygu adeiladau newydd sy'n addas ar gyfer meithrinfa newydd a phresennol i ehangu a adleoli.

SOC wedi gymeradwyo

OBC wedi gymeradwyo

FBC wedi gymeradwyo

Gweithredu a cyflawni

Ucheldraeth Cymru

Welsh Government

Ambition North Wales



Warren Hall, Brychdyn

Darparu gwasanaethau sylfaenol i gyflawni lleiniau datblygu i fusnesau newydd a busnesau presennol ehangu neu adleoli.

Paratoi SOC

Ucheldraeth Cymru

Welsh Government

Ambition North Wales



Porth y Gorllewin Wrecsam

Yn rhan o uwchgynllun Porth Wrecsam, nod y prosiect hwn yw cyflwyno cynllun adfywio defnydd cymysg trawsnewidiol o'r ardal o amgylch Gorsaf Gyffredinol Wrecsam.

Paratoi SOC





Stiwdio Kinnel

Bydd y prosiect hwn yn dylunio, adeiladu a gweithredu stiwdio ffilm a theledu newydd ym Mharc Menter Tir Llwyd, Bae Kinnel.

Prosiect yn cael ei adolygu



Porth Wrecsam

Yn rhan o uwchgynllun Porth Wrecsam, nod y prosiect hwn yw cyflwyno cynllun adfywio defnydd cymysg trawsnewidiol o'r ardal o amgylch Gorsaf Gyffredinol Wrecsam.

Paratoi SOC



*Yn dilyn Adolygiad Portffolio (Mai 2025), yn ffocysu ar effaith ac cyflawnadwyedd, cafodd y prosiect yma ei roi ar y Rhestr wrth gefn, sydd i'w weld yn www.uchelgaigogleddcymru

Ynni Carbon Isel

Datgloi buddion datblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, gan sefydlu Gogledd Cymru fel un o'r lleoliadau arweiniol ar gyfer y sector ynni carbon isel.

ALLWEDD
SOC - Achos Amlinellol Strategol
OBC - Achos Fusnes Amlinellol
FBC - Achos Fusnes Llawn



Cydnerth (Morlais)

Datblygu cysylltiadau grid ychwanegol ar gyfer cyflenwyr ynni llanw i ddefnyddio mwy o dyrbinau o fewn y parth.


SOC wedi gymeradwyo


OBC wedi gymeradwyo


FBC wedi gymeradwyo


Gweithredu a cyflawni





Ynni Lleol Blaengar

Helpu prosiectau i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol.


SOC wedi gymeradwyo


OBC wedi gymeradwyo


Datblygu'r FBC





Egni

Developing a Centre of Excellence, enhancing research, Datblygu Canolfan Ragoriaeth, gwella ymchwil, dylunio ac arloesi mewn ynni carbon isel.


OBC wedi gymeradwyo






Trawsfynydd*

Defnyddio Adweithyddion Modiwlaid Bach neu Uwch ar safle Trawsfynydd i gynhyrchu ynni carbon isel.


Prosiect yn cael ei adolygu





NEW-H2*

Rhoi hwb i'r economi hydrogen yn y rhanbarth drwy gefnogi a datblygu hwb hydrogen.


SOC wedi gymeradwyo


Prosiect yn cael ei adolygu





Hwb Hydrogen Caergybi

Bydd y prosiect hwn yn sefydlu cyfleuster cynhyrchu a dosbarthu hydrogen gwyrdd ym Mharc Cybi, Caergybi sydd o fewn ardal Porthladd Rhydd Ynys Môn


SOC wedi gymeradwyo



*Yn dilyn Adolygiad Portffolio (Mai 2025), yn ffocysu ar effaith ac cyflawnadwyedd, cafodd y prosiect yma ei roi ar y Rhestr wrth gefn, sydd i'w weld yn www.uchelgaigogledd.cymru

TROSOLWG O LYWODRAETH*

Sefydlodd partneriaid awdurdodau lleol y Bwrdd Uchelgais Economaidd fel cyd-bwyllgor yn 2019. Dyma'r corff penderfynu ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, yn ogystal ag arwain cydweithrediad economaidd rhanbarthol.

Wedi sicrhau'r Cynllun Twf ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y partneriaid gytuno i 'Gytundeb Llywodraethu 2'. Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, yn diffinio rôl a swyddogaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i ddefnydd o bwerau dirprwyedig. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r strwythurau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd.

Mae trefniadau llywodraethu'r Cynllun Twf yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw er budd y rhanbarth cyfan. Tra bod y Bwrdd Uchelgais yn gweithredu fel y corff gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf, mae cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol cryf â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel arianwyr y Cynllun Twf.

Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. Mae'r dull hwn yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.

*Mae'r wybodaeth lywodraethu a nodir ar y dudalen hon yn gywir hyd at 31 Mawrth 2024, sef y dyddiad olaf a gwmpesir gan yr Adroddiad Blynyddol 2024/25 hwn. O 1 Ebrill 2025 newidiodd Strwythur Llywodraethu Uchelgais Gogledd Cymru wrth iddo ddod yn Gyd-bwyllgor Corfforedig. Mae manylion ar gael yn www.uchelgaigogledd.cymru


ADRODD

Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn cynhyrchu adroddiadau cynnydd chwarterol ac adroddiad blynyddol ar y Cynllun Twf a gaiff eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, y Bwrdd Uchelgais a'i bartneriaid. Mae'r adroddiadau hyn ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan.


TREFNIADAU CRAFFU

Darperir swyddogaeth craffu Cynllun Twf Gogledd Cymru gan y chwe awdurdod lleol drwy eu trefniadau Pwyllgorau Craffu presennol. Mae'r Pwyllgorau Craffu yn ystyried yr adroddiadau chwarterol a blynyddol a gaiff eu cynhyrchu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio.

STRWYTHUR CYFLAWNI PROSIECTAU'R CYNLLUN TWF



2024-25 mewn rhifau



4

Prosiect yn cael eu cyflawni



7

OBC wedi'u cymeradwyo



8

FBC wedi'u cymeradwyo



35

Swydd wedi'u creu
(26 Uniongyrchol, 9
Anuniongyrchol)



£15.32m

Gwariant Cynllun Twf



£16.61m

Cyfanswm Buddsoddiad



£4.712m

Incwm refeniw wedi'i sicrhau



£16.61m

Unigolion sy'n cwblhau
cymwysterau achrededig a
chysiau hyfforddi DPP



10

Cam trawsnewidiol a gymerwyd i
ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol




12

Eiddo Deallusol Newydd wedi'i
gofrestru o brosiectau



47

Cydweithrediadau newydd sy'n
cynnwys sefydliadau i gefnogi
prosiectau'r Cynllun Twf



139

Cynhyrchion rheoli gwybodaeth
newydd wedi'u creu a'u rhannu



SGILIAU A CHYFLOGADWYEDD



Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Gogledd Cymru
North Wales
Regional Skills Partnership

Y BARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL

Mae'r 12 mis diwethaf yn ddi-os wedi bod yn brysur i Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Gyda chyflwyno Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth 2023-2025 ar y gweill, mae'r gwaith yn parhau i symud ymlaen yn erbyn 3 maes blaenoriaeth a adnabuwyd gan yr RSP sy'n cynnwys galluogi a grymuso cyflogwyr, galluogi a grymuso unigolion a sut y darperir cymorth a gwneud y cysylltiadau. Mae ystod eang o weithgareddau wedi cael eu cynnal gan yr RSP eleni, ac mae rhai o'r gweithgareddau mwyaf effeithiol yn cynnwys:



Portal Sgiliau Gogledd Cymru

Uchafbwynt arwyddocaol eleni oedd lansio Portal Sgiliau Gogledd Cymru sydd wir ei angen. Mae Portal Sgiliau Gogledd Cymru yn blatfform ar-lein arloesol sydd wedi'i gynllunio i gysylltu unigolion a chyflogwyr â datblygiadau sgiliau lleol, cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a darparwyr cymorth. Mae'r Portal Sgiliau yn dod â swyddi gwag lleol, cyfleoedd hyfforddi, mewnwelediadau sector, cymorth sgiliau busnes a mynediad at ddigwyddiadau ac adnoddau lleol at ei gilydd.

Gallwch ddarganfod mwy am y Portal, a dysgu sut y gallwch gymryd rhan yma. Bydd eich cefnogaeth a'ch ymgysylltiad parhaus yn sicrhau bod y Portal yn parhau i fod yn ased rhanbarthol gwerthfawr.



Adroddiad Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI)

Mae LMI cyfredol yn rhan annatod o waith y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol - mae'n caniatáu i'r Bartneriaeth, darparwyr lleol a rhanddeiliaid allweddol ddeall yn well y farchnad lafur sy'n esblygu yn y naw sector allweddol a thwff. Comisiynwyd adroddiad i astudio'r data diweddaraf sydd ar gael, ynghyd â'r tueddiadau a'r rhagolygon yn y dyfodol i dynnu sylw at anghenion y rhanbarth yn y tymor canolig a'r tymor hir. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn fuddiol i brosiectau y Cynllun Twf i ddeall yn well beth yw'r rhagamcanion yn y dyfodol yn eu diwydiannau a sicrhau bod buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud yn arwain at effaith economaidd ystyrlon, hirdymor. Gallwch ddarllen yr adroddiad yma.

Adroddiad Graddedigion

Er mwyn deall graddedigion yn mudo yn well, comisiynodd y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol Darogan Talent i archwilio'r tueddiadau ac asesu anghenion busnesau lleol o ran recriwtio graddedigion. Mae rhai canfyddiadau allweddol yn awgrymu, er nad yw pobl ifanc o reidrwydd yn dychwelyd i ogledd Cymru yn syth ar ôl graddio, maent yn dychwelyd yn ddiweddarach yn eu bywydau. Mae'r camau nesaf ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn cynnwys adolygu'r argymhellion yn yr adroddiad a gweithio gyda phartneriaid i archwilio'r potensial ar gyfer treialu mentrau rhanbarthol, megis rhaglen i raddedigion wedi'i theilwra i anghenion cyflogwyr lleol. Os ydych chi'n awyddus i wybod mwy, gallwch ddod o hyd i'r adroddiad yma.

Cymorth i Brosiectau'r Cynllun Twf

Fel rhan o PMO Uchelgais Gogledd Cymru, mae'r RSP yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi prosiectau'r Cynllun Twf i adnabod ac ymateb i anghenion sgiliau. Dros y 12 mis diwethaf, mae gwaith wedi parhau i fireinio'r dull o gasglu gwybodaeth am fylchau sgiliau a heriau'r gweithlu, gan sicrhau bod cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn cael eu dal a'u datrys yn effeithiol. Rydym wedi gweithio gyda llawer o brosiectau ar draws y portffolio yn ystod y flwyddyn. Un enghraifft o'n gwaith gyda'r Cynllun Twf yw gyda'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth, lle rydym wedi eu cefnogi drwy gyflwyno rhanddeiliaid, casglu data, a gwneud cysylltiadau â phrosiectau eraill Grŵp Llandrillo Menai fel y Llwybr Talent Twristiaeth. Bydd yr RSP yn parhau i gefnogi prosiectau wrth iddynt symud ymlaen trwy gydol tymor y Cynllun Twf.



Is-grŵp Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni

Mae Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni yn ddau sector sy'n tyfu yng Ngogledd Cymru, yn enwedig gyda datblygiad Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wreccsam. Mae'r RSP wedi sefydlu is-grŵp cyflogwyr newydd sy'n dod â chyflogwyr o bob maint o'r ddau sector, ar draws y rhanbarth ynghyd i drafod anghenion, heriau a chyfleoedd sgiliau. Gyda Debbie Jones (o M-SParc) yn Gadeirydd, a Martin Evans (o Airbus) yn Is-gadeirydd, bydd y grŵp hwn yn chwarae rôl allweddol wrth lunio datblygu sgiliau, ymateb i anghenion y diwydiant, a chefnogi twf economaidd rhanbarthol drwy'r Parth Buddsoddi, yn ogystal â'r cyd-destun ehangach.

“

Mae ein pobl yn allweddol i lwyddiant ein busnes gweithgynhyrchu uwch. Nhw yw'r hyn sy'n gwneud y gwahaniaeth! Mae hyfforddiant yn sail i hyn, gan ddarparu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer heddiw ac yfory. Yn y pen draw, sicrhau bod Brychdyn yn parhau i fod ar flaen y gad o ran gweithgynhyrchu Awyrofod. Mae cefnogaeth RSP Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru wedi bod yn hollbwysig, gan ein galluogi i ddatblygu a darparu hyfforddiant o'r radd flaenaf.

”

Martin Evans, Pennaeth yr Academi Ddiwydiannol yn Airbus ac Is-gadeirydd y Grŵp Clwstr Cyflogwyr Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni

Rhaglenni Datblygu Economaidd

Mae Gogledd Cymru wedi croesawu dau fuddsoddiad mawr y tu allan i'r Cynllun Twf dros y blynyddoedd diwethaf - Porthladd Rhydd Ynys Môn, a Pharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wreccsam.

- Ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn, mae'r RSP wedi cynorthwyo Cyngor Ynys Môn a Quod Consulting gydag LMI i ffurfio rhan o'u Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cais Porthladd Rhydd Ynys Môn. Mae'r RSP yn darparu sylfaen gadarn i waith y Porthladd Rhydd ar sgiliau ac mae wedi chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu'r cynllun sgiliau ar gyfer y Porthladd Rhydd sydd wedi'i gynnwys yn yr achos busnes terfynol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- Er mwyn gweld potensial llawn y Parth Buddsoddi, mae'n hanfodol bod y sgiliau sydd eu hangen yn y sector gweithgynhyrchu uwch yn cael eu hystyried yn gynnar. Er mwyn cefnogi'r angen hwn, mae'r RSP wedi comisiynu Amion i gynhyrchu Strategaeth Sgiliau. Mae'r fenter Parth Buddsoddi yn cyflwyno cyfle i ddatblygu dull wedi'i dargedu o ddatblygu sgiliau, gan sicrhau aliniad â thwf sectorol mewn gweithgynhyrchu uwch, anghenion cyflogwyr, a thueddiadau economaidd sy'n dod i'r amlwg. Edrychwn ymlaen at weld datblygiadau dros y misoedd nesaf.

Cynllun peilot Llwybrau Gyrfa

Ynys Môn

Wedi'i gyflwyno mewn cydweithrediad â phartneriaid rhanbarthol allweddol, datblygwyd Cynllun Peilot Llwybrau Gyrfa Ynys Môn i alinio addysg ag anghenion cyflogwyr, gwella parodrwydd gyrfa ymhlith pobl ifanc, a chefnogi datblygiad economaidd lleol yn well. Mae'r peilot wedi profi tri phrosiect yn llwyddiannus yn 2024:

- Ysbrydoli i Adeiladu - cyflwyno myfyrwyr chweched dosbarth i ystod o yrfaeodd ym maes adeiladu, o bensaerniaeth i beirianeg sifil, trwy ymgysylltu â chyflogwyr, ymweliad safle a heriau rheoli prosiectau ymarferol.
- Mewnwelediadau Gofal Cymdeithasol - ymgysylltu â dros 700 o ddisgyblion Blwyddyn 9 i archwilio rolau amrywiol o fewn gofal cymdeithasol cyn eu dewisiadau TGAU, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a diddordeb mewn sector sydd â galw cynyddol am weithlu.
- Cyfarfodydd Athrawon-Cyflogwyr - daeth dros 30 o athrawon a chyflogwyr lleol ynghyd i ddyfnhau dealltwriaeth o'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i lwyddo yn y gweithle, gan helpu addysgwyr i gysylltu dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn well â disgygliadau gwirioneddol y farchnad lafur.

Gydag ymgysylltiad cryf a chanlyniadau cadarnhaol, mae trafodaethau ar y gweill i ailadrodd y dull hwn gydag awdurdodau lleol eraill, gan gefnogi datblygiad prif linellau gweithlu sy'n cyd-fynd â sectorau rhanbarthol allweddol.

“


“Mae bod yn rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a rhai o'i is-grwpiau wedi rhoi cyfle i ni ddechrau arddangos a dangos pa gyfleoedd gyrfa gwyh a gwerth ychwanegol i'r economi sydd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Cefnogodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gyfres lwyddiannus o ddigwyddiadau yn Ynys Môn, lle mynychodd disgyblion blwyddyn 9 ym mhob un o'r 5 ysgol uwchradd ddigwyddiad arddangos a oedd yn bwrpasol ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Cafodd disgyblion brofi a chlywed yn uniongyrchol pa gyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y sector i'w galluogi i wneud penderfyniadau wrth gychwyn ar eu dewisiadau TGAU.”

Jenny Williams, Cadeirydd Bwrdd Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Gogledd Cymru - rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

”





CYNLLUNIAU YNNI ARDAL LEOL

CYNLLUNIAU YNNI ARDAL LEOL A STRATEGAETH YNNI RHANBARTHOL

Mae'r Tîm Ynni Strategol wedi gweithio'n agos gyda'r pump awdurdod lleol (gyda chynllun Conwy eisoes wedi'i ddatblygu) ac ARUP, yr Ymddiriedolaeth Garbon ac Afallen i gyflwyno Cynlluniau Ynni Ardal Leol (LAEP) sy'n benodol ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, symudodd y ffrwd waith ynni strategol i gyfnod monitro, gan greu offer a phrosesau i uno prosiectau, rhanddeiliaid a chyfleoedd cyllido. Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu symud i gam cychwyn a chyflawni'r prosiect, lle mae ein prosesau monitro yn adnabod bylchau.



Cwblhawyd yr holl Gynlluniau Ynni Ardal Leol, cafodd tri eu cymeradwyo gan yr awdurdodau lleol ac mae tri yn y broses wleidyddol.



Fe wnaethom ddatblygu pedwar cyfeiriadur: prosiectau, rhanddeiliaid, cyllid a chamau gweithredu y gellir eu hintegreiddio i olrhain prosiectau datgarboneiddio ledled y rhanbarth, rhannu cyfleoedd cyllido sydd ar gael gyda rhanddeiliaid ac olrhain ein cynnydd i sero net.



Fe wnaethom flaenoriaethu'r camau gweithredu a neilltuwyd i Uchelgais Gogledd Cymru o'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol a'r Strategaeth Ynni Ranbarthol, er mwyn llunio cynllun gwaith blaengar sy'n adnabod bylchau rhwng yr allbynnau gofynnol a'r camau gweithredu.



Rydym yn monitro ein gweithredoedd ac yn gweithio tuag at fonitro gweithredoedd eraill sydd â pherchnogaeth o'r system ynni



Fe wnaethom ail-lunio'r Grŵp Llywio Rhanbarthol, i ddod â chydweithwyr ynghyd ar draws y grŵp ynni, rhannu arfer gorau a llywio'r system gyfan i sero net.



CYLLID FFYNIANT GYFFREDIN

PROSIECTAU'R GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN



Roedd ein prosiect UKSPF 2024-25 yn cynnwys wyth ffrwd waith allweddol a oedd yn gwneud y mwyaf o'r manteision a'r cyfleoedd sydd ar gael i fusnesau a chymunedau ledled Gogledd Cymru, drwy fuddsoddiadau wedi'u halinio â Chynllun Twf Gogledd Cymru. Gyda'i gilydd, roedd y ffrydiau gwaith yn mynd i'r afael â heriau sy'n wynebu unigolion a busnesau bach a chanolig - yn benodol mewn perthynas â phrinder sgiliau, capasiti a bylchau gwybodaeth - a helpu busnesau i gyflymu parodrwydd prosiectau fel y gellir eu defnyddio'n gynharach. Mae hyn, yn ei dro, wedi helpu i osod y sylfeini er mwyn i fuddion y Cynllun Twf gael eu gwireddu yn gynt. Darparodd cyllid SPF gymorth referniw hanfodol i ategu ein prosiectau a ariennir gan gyfalaf, gan ganiatáu i weithgareddau fel astudiaethau dichonoldeb, digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned ac asesiadau busnes ddigwydd.

Cymorth Ysgrifennu Bid

Roedd sefydliadau cymunedol a mentrau bach yng Ngogledd Cymru yn gallu gwneud cais am grant cymorth ysgrifennu cais ar gyfer prosiectau ynni glân. Ariannodd y cymorth yma ymgynghoriadau gyda ymgynghorwyr arbenigol ar greu ceisiadau cyllid effeithiol.

Yn dilyn hynny, datblygwyd a chyhoeddwyd cyfres o ddogfennau ar ein gwefan. Mae'r cyhoeddiadau'n cynnig cefnogaeth i sefydliadau ddatblygu prosiectau a chynigion cryfach, mwy cydlynol ac maent wedi'u cynllunio i fod yn arbennig o fuddiol i'r rhai sy'n gwneud cais i Gronfa Ynni Glân y Cynllun Twf - i'w lansio yn Haf 2025.



Cytundebau Mynediad

Dan arweiniad tîm digidol UGC, cefnogwyd awdurdodau lleol i ymchwilio i ddichonoldeb llofnodi Cytundebau Mynediad, a fyddai'n caniatáu i ddarparwyr rhwydwaith ddefnyddio eu tir i osod, gweithredu neu gynnal seilwaith cyfathrebu digidol. Yn unol â dymuniad Llywodraeth y DU i lywodraeth leol chwarae rhan weithredol wrth hwyluso gwella isadeiledd digidol, cytunodd pob cyngor fod llofnodi'r Cytundebau Mynediad yn gam ymarferol a chadarnhaol ymlaen - gyda rhai cytundebau yn cael eu harwyddo yn ystod y gwaith - gan ei gwneud hi'n haws i weithredwyr rhwydwaith fuddsoddi mewn gwella cysylltiad i drigolion a busnesau gogledd Cymru.

Pecyn Arolwg Symudol

Ym mis Ionawr, prynwyd offer arolwg arbenigol 4G i gynnal gwerthusiadau annibynnol o'r signal symudol ledled y rhanbarth. Darparodd ymgynghorwyr o'r sefydliad cyflenwyr - Keysight, hyfforddiant gweithredol i aelodau perthnasol o dîm Uchelgais Gogledd Cymru, ochr yn ochr â sefydliadau partner. Bydd y cit newydd nawr yn cael ei gludo gan lorïau sbwriel ar lwybrau sefydledig ledled y rhanbarth - sy'n golygu y gellir nodi lleoliad y cwrmpas neu broblemau cysylltedd. Bydd y gallu newydd hwn yn llywio cyfeiriad buddsoddiad yn y Cynllun Twf trwy ddarparu gwybodaeth i weithredwyr mewn perthynas â materion ac anghenion lleoliad penodol.

Cefnogaeth Cysylltedd Digidol Gwledig

Roedd hwn yn brosiect newydd i gefnogi cymunedau ledled gogledd Cymru i ddeall eu dewisiadau ynghylch gwella cysylltedd band eang. Penodwyd Annog Cyf, cangen fasnachol Menter Môn, i ymgymryd â'r gwaith ar y cyd â Cadwyn Clwyd, gan ffurfio partneriaeth effeithiol sy'n cael ei chwyddo gan wybodaeth ac adnoddau lleol. Cafodd dros 500 o bobl eu tywys drwy eu dewisiadau band eang, a chynhaliwyd digwyddiadau ledled y rhanbarth i roi gwybod am y math o gymorth sydd ar gael.



Cysylltedd Digidol Gwledig
Rural Digital Connectivity

Portal Sgiliau Gogledd Cymru

Ym mis Ionawr lansiwyd Portal Sgiliau Gogledd Cymru yr oedd disgwyl mawr amdano - gwefan sy'n cysylltu unigolion a chyflogwyr â darparwyr datblygu sgiliau, cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a chymorth lleol. Yn ystod y 10 diwrnod cyntaf o gael ei lansio, derbyniodd y Port dros 1,000 o ymwelwyr unigryw - gan bwysleisio'r galw am yr ased rhanbarthol hwn.



Buddion a Gwerth Cymdeithasol - arolwg a gweithdy



Yr Haf diwethaf, gwnaethom gynnal arolwg i weld pa mor gyfarwydd oedd sefydliadau'r rhanbarth â'r cysyniad o werth cymdeithasol ac a oes ganddynt strategaethau i yrru'r elfen hon o'r economi lles. Roeddem eisiau adnabod pwy oedd yn gwneud yn dda a pha fath o gymorth oedd ei angen, gyda'r bwriad o sbarduno dull aml-sector mwy cydweithredol i fynd i'r afael â nodau cyffredin.

Yn seiliedig ar yr ymateb, dyluniodd ein Arweinydd Gwerth Cymdeithasol weithdy ar-lein 2 awr, a fynychwyd gan 77 o bobl. Rhoddodd daith gerdded drwy bopeth oedd yn ymwneud â gwerth cymdeithasol gan fynd i'r afael â phob anhawster a fynegwyd gan yr ymatebwyr, gyda phedwar siaradwr gwadd yn rhannu mewnwelediadau gwerthfawr ac arfer gorau o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

GWEITHDY GWERTH CYMDEITHASOL
SOCIAL VALUE WORKSHOP

06/11/24
12:30-14:30

Asesiadau Cysylltedd Busnesau Bach a Chanolig

Roedd Anglesey Sea Salt, Edwards o Gonwy a Carl Kammerling International yn rhai o'r busnesau a dderbyniodd gefnogaeth drwy ein ffrwd waith ddigidol Asesiadau Cysylltedd Busnesau Bach a Chanolig. Dan arweiniad y partner cyflenwi BIC Innovation, buom yn gweithio gyda busnesau i fapio eu systemau technoleg cyfredol, cyflwyno opsiynau ar gyfer gwella cysylltedd a rhoi argymhellion wedi'u teilwra ar sut i fabwysiadu technoleg ddi-wifr uwch newydd a pherthnasol i wella effeithlonrwydd ac arloesedd gweithredol. Bydd mewnwelediadau yn bwydo i mewn i brosiect Di-wifr Uwch y Cynllun Twf.



Allyriadau Carbon a Bioamrywiaeth

Rhannu arfer gorau a chyflwyno sesiynau hyfforddi ar sut y dylai ystyriaethau newid hinsawdd lywio datblygiad achos busnes.

Bu'n bosib i ni orgyflawni'r targedau allbwn a chanlyniadau a osodwyd ar draws ein ffrydiau gwaith SPF.

ystyriodd gwerthuswyr annibynnol y prosiect fel llwyddiant, gan ei ystyried yn

“

.... **cost-effeithiol iawn...**

”

... wrth gyflawni canllawiau digidol, amgylcheddol a chyflogaeth wedi'u teilwra...

“

.... **ar ffracsiwn o'r gost draddodiadol...**

”



ELUSEN Y FLWYDDYN

ELUSEN Y FLWYDDYN

Yn flynyddol ym mis Medi, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn dewis elusen y flwyddyn. Elusen y Tîm ar gyfer y llynedd (Medi 2023-2024) oedd Tŷ Gobaith.

Mae'r tîm wedi croesawu cymysgedd gwych o weithgareddau codi arian a hwyl i Dŷ Gobaith. O gymryd rhan mewn Dark Runs ledled y rhanbarth i gynnal cyfres o stondinau cacennau llwyddiannus, daeth yr ymdrechion i ben mewn Cwis hynod boblogaidd a ddaeth â chydweithwyr a'r gymuned at ei gilydd. Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran a chefnogi'r digwyddiadau gwych hyn a'r elusen!

Manteisiodd rhai aelodau'r tîm ar y cyfle i ymweld â Thŷ Gobaith i weld y gefnogaeth amhrisiadwy y maent yn ei darparu i deuluoedd ledled Gogledd Cymru.

Diolch yn fawr iawn i Dŷ Gobaith am fod yn Elusen y Flwyddyn - rydym yn hynod falch o gefnogi sefydliad mor hanfodol.

Fe wnaethon ni godi **£2,860** i Dŷ Gobaith - anhygoel!



Rydym yn falch o gyhoeddi mai ein Elusen y Flwyddyn (Medi 2024-2025) yw Canolfan Cymorth Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru.



Mae RASASC yn darparu gwybodaeth hanfodol, cymorth arbenigol, a therapi i unrhyw un 3 oed a throsodd sydd wedi profi cam-drin rhywiol neu drais - boed yn ddiweddar neu'n hanesyddol. Mae eu gwasanaethau hefyd yn ymestyn i bartneriaid ac aelodau o'r teulu yr effeithir arnynt gan brofiadau o'r fath, gan gynnig cymorth tosturiol, proffesiynol i helpu pobl i wella.

Rydym yn bwriadu cefnogi tîm ymroddedig y sefydliad drwy ystod o weithgareddau codi arian a chodi ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn.

Hyd yn hyn mae'r tîm wedi codi £265 ac wedi arwain ar:

- Creu pecynnau gofal ar gyfer cleientiaid RASASC gwerth £675
- Diwrnod Siwmpwr Nadolig
- Stondinau cacennau elusennol.

Cadwch lygad am fwy o'n Digwyddiadau Tîm Elusennol sy'n digwydd yn eich ardal chi wrth i ni barhau i gefnogi'r achos hanfodol hwn trwy gydol y flwyddyn!



Y 12 mis nesaf

Mae'r flwyddyn ariannol yn dechrau gyda newid sylweddol i'n strwythur llywodraethu, wrth i'n tîm Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Cynllun Twf gael eu trosglwyddo i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 1 Ebrill 2025.

Fel tîm, byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni dyletswyddau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig – cynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, Cynllun Datblygu Strategol, a hyrwyddo a gwella lles economaidd rhanbarthol – sy'n cynnwys parhau i gyflawni'r Cynllun Twf.

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd mawr o fewn ein cyfrifoldebau trafndiaeth, o ystyried lansiad ein hymgyngoriad cyhoeddus ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru drafft.

Yn yr un modd, o ran lles economaidd, ar y cyd a chynghorau Wreccsam a Sir y Fflint a phartneriaid, rydym wedi sefydlu sylfeini cadarn ar gyfer datblygu Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wreccsam.

Yn nhermau portffolio'r Cynllun Twf, bu rhai heriau sylweddol hyd yma, er hynny, mae cynnydd yn digwydd ac rydym bellach yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y prosiectau sy'n symud i'r cyfnod cyflawni gan greu'r swyddi cyntaf. O gyflwyno'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth, lansiad ein Cronfa Ynni Glân, gwaith yn dechrau ar y safle yn y cynllun ynni llanw – Cydnerth, i ddarparu'r Ganolfan Opteg a Pheirianeg Menter a chyfleusterau yn y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol, ochr yn ochr â phrosiectau digidol fel 4G+ ac Di-wifr Uwch – rydym wir yn symud ar y llwybr cywir.

Yn ogystal â hyn, wrth i'r flwyddyn ariannol hon ddod i ben, rydym yn adolygu portffolio'r Cynllun Twf a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu rhestr wrth gefn newydd o brosiectau effeithiol a chyflawnadwy yn gyflym. Bydd hyn yn creu piblinell iach iawn ar gyfer y Cynllun Twf ac yn dad-risgio'r portffolio os bydd prosiectau'n stopio neu bydd cyllid pellach yn cael ei ryddhau.

Ar yr elfen hanfodol o sgiliau – sy'n hanfodol i lwyddiant pob elfen o'n gwaith – bydd ein Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn parhau i chwarae rôl allweddol wrth gefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar Swyddi a Thwf Gwyrdd a Sero Net.

Mae disgwyl i benodiad Prif Weithredwr parhaol y Cyd-bwyllgor Corfforedig gael ei gadarnhau ym mis Mehefin 2025 – a bydd yn arwain yn wirioneddol wrth yrru cynnydd i gymunedau, busnesau ac unigolion ledled Gogledd Cymru.

Felly, rydym yn dechrau ar ein blwyddyn ariannol nesaf, gan gofleidio newid – wedi ymrwymo i gydweithio yn rhanbarthol fel bod ein gwaith caled yn dwyn ffrwyth, sy'n golygu bod Gogledd Cymru yn ffynnu nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Alwen Williams

Portfolio Director and Part-Time
Interim Chief Executive Officer
Ambition North Wales



EIN PARTNERIAID



£240M O GYLLID Y CYNLLUN TWF GAN

